Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cyllid**

# Adroddiad Cryno ar Ymgysylltu - y Pwyllgor Cyllid

## Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25

Gorffennaf 2023




senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/SeneddCyllid**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Cyllid**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddCyllid@senedd.cymru**
Twitter: **@SeneddCyllid**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2022**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cyllid**

# Adroddiad Cryno ar Ymgysylltu - y Pwyllgor Cyllid

## Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25

Gorffennaf 2023

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
**www.senedd.cymru/SeneddCyllid**

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Cadeirydd y Pwyllgor:**
**Peredur Owen Griffiths AS**
Plaid Cymru



**Peter Fox AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Mike Hedges AS**
Llafur Cymru



**Rhianon Passmore AS**
Llafur Cymru

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cyllid**

# Adroddiad Cryno ar Ymgysylltu - y Pwyllgor Cyllid

## Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25

Gorffennaf 2023

# Cynnwys

**Rhagair y Cadeirydd** ........ 3

**1. Cyflwyniad** ........ 5

**2. Digwyddiad i Randdeiliaid** ........ 6

**3. Gweithdy gydag aelodau o Senedd Ieuenctid Cymru** ........ 14

**4. Grwpiau ffocws gyda sefydliadau ac unigolion** ........ 19

**Atodiad A: Rhestr o gyfranogwyr y digwyddiad i randdeiliaid** ........ 20

**Atodiad B: Canfyddiadau ymgysylltu â dinasyddion** ........ 21

# Rhagair y Cadeirydd

Yn ddiweddarach eleni, bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ei Chyllideb Ddrafft o oddeutu £22 biliwn ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf, o 1 Ebrill 2024 i 31 Mawrth 2025; y drydedd Gyllideb Ddrafft a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru yn ystod y Chweched Senedd.

Mae’r cynigion cyllidebol hyn yn hanfodol ar gyfer darparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Fodd bynnag, mae’r dirwedd ariannol yn parhau i fod yn ansicr iawn ac mae blynyddoedd o lymder, cyfraddau chwyddiant ystyfnig o uchel a chwymp mewn safonau byw i gyd yn cael effaith sylweddol ar yr hyn y gall pwrs y wlad ei fforddio a’i gyflawni.

Mae rhagolwg economaidd y byd yn llwm gyda gostyngiad mewn twf ac mae costau byw yn parhau i fod yn un o'r materion mwyaf arwyddocaol i bobl yng Nghymru. Bydd pwysau sylweddol ar Lywodraeth Cymru wrth ymateb i’r anawsterau economaidd; gyda phwysau digynsail ar wasanaethau cyhoeddus allweddol.

Bob blwyddyn, mae'r Pwyllgor Cyllid yn cynnal nifer o weithgareddau ymgysylltu i gasglu barn ynghylch ble y dylai Llywodraeth Cymru flaenoriaethu gwariant yn ei chyllideb sydd ar ddod. Yn ystod y cyfnod anodd hwn, mae'n bwysicach nag erioed ein bod yn clywed yn uniongyrchol gan randdeiliaid a'r cyhoedd ledled Cymru ynghylch ble y dylai Llywodraeth Cymru fod yn blaenoriaethu ei gwariant.

Eleni, buom yn ymweld â gogledd Cymru i gynnal ein digwyddiad blynyddol i randdeiliaid ym Mhrifysgol Glyndŵr Wrecsam. Mae Wrecsam yn ganolfan ar gyfer gweithgynhyrchu, manwerthu, ac addysg, ac yn ganolbwynt diwylliannol a chwaraeon ar gyfer yr ardal. Mae'n bwysig i ni fel Pwyllgor ein bod yn gwrando ar farn pobl a sefydliadau ledled Cymru, ac rydym yn ddiolchgar i'r holl randdeiliaid a fynychodd ac a gymerodd ran yn y trafodaethau.

Am yr ail flwyddyn yn olynol, cynhaliwyd gweithdy hefyd gydag Aelodau o Senedd Ieuenctid Cymru a hoffwn ddiolch i'r Aelodau ifanc hyn a roddodd o'u hamser eu hunain i siarad yn onest ac agored am y materion sy'n bwysig iddynt.

Elfen olaf ein strategaeth ymgysylltu oedd y grwpiau ffocws niferus a gynhaliwyd gyda sefydliadau ac unigolion ledled Cymru. Unwaith eto mae hyn yn ganolog i'n gwaith ac rydym yn ddiolchgar am eu hymgysylltiad parhaus yn ein gwaith.

Bydd y safbwyntiau a'r pryderon a fynegir yn yr adroddiad hwn yn gonglfaen i'n dadl yn y Cyfarfod Llawn ar Flaenoriaethau Gwariant Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25 a fydd yn cael ei chynnal ddydd Mercher, 12 Gorffennaf 2023.

Rydym yn gobeithio y bydd Llywodraeth Cymru yn gwrando ar y pryderon a godwyd ac yn canolbwyntio ei hadnoddau yn briodol yn ei Chyllideb Ddrafft sydd ar ddod fel bod gennym wasanaethau sy'n gynaliadwy ac yn mynd i'r afael â phryderon a blaenoriaethau'r cyhoedd yng Nghymru.

Bydd cyfleoedd pellach i sefydliadau ac unigolion ymgysylltu â ni ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25. Rydym yn bwriadu cyhoeddi ymgynghoriad ysgrifenedig, ac yna sesiynau tystiolaeth lafar gyda rhanddeiliaid allweddol a'r Gweinidog yn yr hydref, pan fydd y Gyllideb Ddrafft ar gael.

Rydym bob amser yn hoffi clywed gennych; felly, os oes gennych ddiddordeb, anfonwch neges at SeneddCyllid@Senedd.Cymru i gael rhagor o wybodaeth.



Peredur Owen Griffiths, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

# 1. Cyflwyniad

**1.** Mae'r Pwyllgor Cyllid ("y Pwyllgor") yn gyfrifol am graffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ("y Gyllideb Ddrafft"). Caiff y Gyllideb Ddrafft ei chyhoeddi yn nhymor yr hydref fel arfer. Disgwylir i'r Gyllideb Ddrafft ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf 2024-2025 fod tua £22 biliwn. Mae hyn yn cynnwys arian gan Lywodraeth y DU drwy grant bloc Cymru ac arian a godir drwy drethi Cymru.[1]

**2.** Cyn cyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft, mae'r Pwyllgor yn ymgysylltu cyhoeddus â rhanddeiliaid ac unigolion i gael sylwadau ar gynigion disgwyliedig y gyllideb ddrafft, yn ogystal â dull strategol Llywodraeth Cymru o bennu'r gyllideb a blaenoriaethu adnoddau.

**3.** Mae'r wybodaeth a gesglir yn ystod ei waith ymgysylltu â'r cyhoedd yn sail i ddadl yn y Cyfarfod Llawn, dan arweiniad y Pwyllgor, ar Flaenoriaethau Gwariant Llywodraeth Cymru. Y Pwyllgor oedd yn cyflwyno'r math hwn o ddadl (gyda chytundeb y Pwyllgor Busnes) i sicrhau bod y Senedd yn cael cyfle ffurfiol i drafod a dylanwadu ar flaenoriaethau gwariant Llywodraeth Cymru cyn llunio'r Gyllideb Ddrafft.

**4.** Bydd ein gwaith ymgysylltu hefyd yn llywio gwaith craffu'r Senedd ar y Gyllideb Ddrafft yn nhymor yr hydref, gan alluogi'r Pwyllgor i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif ar ei phenderfyniadau gwariant yn unol â barn a blaenoriaethau'r cyhoedd yng Nghymru.

**5.** Cynhelir dadl yn y Cyfarfod Llawn ar flaenoriaethau gwariant Llywodraeth Cymru ar 12 Gorffennaf 2023. Bydd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol ("y Gweinidog"), Rebecca Evans AS, yn ymateb i'r ddadl.

**6.** Eleni, roedd strategaeth y Pwyllgor ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd yn cynnwys y canlynol:

- digwyddiad allanol i randdeiliaid ym Mhrifysgol Glyndŵr Wrecsam;
- gweithdy ar-lein gydag aelodau o Senedd Ieuenctid Cymru; a
- grwpiau ffocws gyda sefydliadau ac unigolion a hwyluswyd gan dîm Ymgysylltu â Dinasyddion y Senedd.

[1] Mae trethi Cymru yn cynnwys: Cyfraddau Treth Incwm Cymru, ardrethi annomestig, Treth Trafodiadau Tir, Treth Gwarediadau Tirlenwi

**7.** Hoffai'r Pwyllgor ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu at ei waith.

# 2. Digwyddiad i Randdeiliaid

## Cefndir

**8.** Cynhaliwyd Digwyddiad Rhanddeiliaid y Pwyllgor ar 15 Mehefin 2023 ym Mhrifysgol Glyndŵr Wrecsam.[2]

**9.** Rhoddwyd gwahoddiad wedi'i dargedu i randdeiliaid a oedd yn bresennol yn flaenorol a'r rhai a ymatebodd i ymgynghoriad diweddaraf y Pwyllgor ar y Gyllideb Ddrafft. Cymerodd 17 o sefydliadau ran yn y digwyddiad o amrywiaeth eang o sectorau. Ceir rhestr o'r sefydliadau a gymerodd ran yn Atodiad A




[2] Rhianon Passmore AS, ei hymddiheuriadau am nad oedd yn gallu bod yn bresennol.

## Crynodeb o'r trafodaethau

**10.** Roedd barn gyffredinol ymhlith cyfranogwyr fod cyllidebau'n cael eu gwasgu oherwydd prif bwysau costau chwyddiant uchel a phrisiau ynni uchel.

**11.** Mynegodd rhanddeiliaid y pryderon cyffredinol a ganlyn ynghylch y cyd-destun cyllidol presennol:

- Mae diffyg buddsoddiad cyfalaf, a waethygwyd gan chwyddiant uchel, wedi effeithio ar brosiectau a gwelliannau seilwaith arfaethedig, ledled y sector cyhoeddus.
- Roedd pryderon ynghylch sut y bydd dyfarniadau cyflog y sector cyhoeddus, nad yw rhai ohonynt wedi'u pennu'n derfynol eto, yn cael eu hariannu a'r effaith y bydd hyn yn ei chael ar gynllunio strategol.
- Mae angen i Lywodraeth Cymru fabwysiadu dull mwy strategol wrth weinyddu grantiau, gan fod gormod o grantiau llai o faint a dderbyniwyd yn ddiweddarach yn y flwyddyn wedi achosi anawsterau o ran cynllunio strategol ac ariannol.

**12.** Mae materion eraill a godwyd gan gyfranogwyr yn y digwyddiad wedi'u crynhoi o dan saith is-bennawd a nodwyd fel prif flaenoriaethau:

### Cymorth i'r rhai sy'n astudio ac yn gweithio yn y sector addysg

**13.** Roedd sylwadau rhanddeiliaid yn canolbwyntio ar ddarparu cymorth i'r rhai sy'n gweithio ac yn astudio yn y sector addysg a'r angen i gynyddu capasiti i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd:

- Roedd llesiant meddwl myfyrwyr yn bryder mawr, gyda sefydliadau academaidd yn gweld cynnydd yn nifer y ceisiadau am gymorth gan fyfyrwyr. Nodwyd effaith COVID-19 a'r argyfwng costau byw fel y prif resymau dros y cynnydd mewn ceisiadau, a dywedodd myfyrwyr eu bod yn wynebu trafferthion ariannol, yn academaidd, ac yn gymdeithasol.
- Nodwyd bod tangyllido parhaus ar gyfer addysg oedolion yn bryder gwirioneddol, yn enwedig gan fod gan Gymru ar un adeg uchelgais o fod yn 'genedl dysgu gydol oes'. Roedd angen cynnydd mewn cyllid i ehangu'r cyfleoedd sydd ar gael ar gyfer dysgu oedolion, gan ei fod yn ffordd bwysig o ddianc rhag tlodi.
- Mae angen canolbwyntio mwy ar ddatblygu a hyrwyddo rhaglenni prentisiaeth fel modd o greu swyddi sy'n talu'n well yng Nghymru.

Byddai cynnydd yn argaeledd prentisiaethau Addysg Uwch (AU) yn ddymunol oherwydd ystyrir bod yr hyn a gynigir ar hyn o bryd yn gyfyngedig iawn. Tynnwyd sylw at gyfrifeg a seiberddiogelwch fel dau broffesiwn sydd â bylchau o ran talent yng Nghymru ar hyn o bryd, a fyddai'n elwa o brentisiaethau lefel uchel.

- Nodwyd bod mwy o gapasiti yn y cwricwlwm addysg ar gyfer hyfforddi'r gweithlu, cydweithredu a datblygiad proffesiynol yn bwysig, yn enwedig gan fod gofyn i academyddion ysgwyddo mwy o gyfrifoldebau.
- Nodwyd bod datblygu ac ariannu cynllun adfer ar gyfer myfyrwyr sydd wedi colli allan ar addysg yn ystod pandemig COVID-19 yn bwysig.

## Mae angen i wasanaethau gydweithio i wynebu'r heriau sy'n wynebu'r GIG a'r sector gofal cymdeithasol

**14.** Tynnodd y cyfranogwyr sylw at gyllid wedi'i dargedu mewn meysydd allweddol a phwyslais ar gydweithio a gwella gwasanaethau rheng flaen:

- Cafodd cynllunio'r gweithlu yn y sector gofal iechyd ei godi fel mater pwysig, gyda bylchau sylweddol amlwg o ran talent mewn rhai proffesiynau. Nodwyd bod prinder staff wedi arwain at gynnydd mewn recriwtio rhyngwladol a gorddibyniaeth ar staff asiantaeth, gan arwain at gostau cynyddol. Byddai cydweithio rhwng y sectorau gofal iechyd ac addysg wrth nodi'r gymysgedd sgiliau yn y dyfodol yn helpu i liniaru'r broblem hon.
- Nodwyd bod cymorth ariannol i fyfyrwyr meddygol a hyfforddeion yn bwysig, ac ystyriwyd bod Cynllun Bwrsariaeth GIG Cymru yn ffynhonnell incwm hanfodol o ran darparu cymorth ar gyfer ffioedd a chostau byw. Er y cydnabuwyd bod y fwrsariaeth yn cynnwys sawl proffesiwn gofal iechyd, holodd y cyfranogwyr a ellid ei hymestyn ymhellach.
- awgrymodd un rhanddeiliad fod ymchwil feddygol heb gael digon o gyllid o bell ffordd. Dywedwyd bod manteision ariannol o hyd mewn perthynas ag atal a chreu swyddi o fewn y gymuned, waeth a fyddai buddsoddiad mewn ymchwil feddygol yn arwain at gynhyrchion yn cael eu datblygu yng Nghymru.
- Mewn perthynas â dyfodol gwasanaethau gofal iechyd, nodwyd y byddai model siop un stop, gyda chleifion yn cael mynediad at wasanaethau yn agosach at eu cymuned, yn fuddiol iawn. Byddai'r model hwn yn gweld mwy o ffocws ar atal a hyrwyddo ffyrdd iach o fyw.

Mae angen newid o ganolbwyntio ar nifer y canlyniadau cleifion i ansawdd canlyniadau cleifion.

- Mynegwyd pryder ynghylch cyllid yn y dyfodol ar gyfer mentrau gofal iechyd pwysig megis mapio a chynnal a chadw'r rhwydwaith diffibriliwr. Nodwyd hefyd bod ymgyrchoedd ymwybyddiaeth y cyhoedd sy'n hyrwyddo llwyfannau gofal iechyd ar-lein megis Dewis Cymru a Llais yn bwysig.
- Mynegwyd pryder y gallai gorwariant parhaus Byrddau Iechyd arwain at ostyngiad cyfatebol mewn cyllid ar gyfer llywodraeth leol ac, o ganlyniad, fe allai hynny effeithio ar y ddarpariaeth o ran gwasanaethau gofal cymdeithasol.
- Awgrymwyd y byddai rolau gofal cymdeithasol uwch yn gweld mwy o ffocws ar atal ac ailintegreiddio cleifion nôl i'r gymuned, gyda'r cyfrifoldebau a'r sgiliau ychwanegol hyn yn arwain at gyfraddau uwch o gyflog a chydnabyddiaeth. Byddai'r statws uwch hwn hefyd yn helpu gyda'r heriau presennol sy'n wynebu'r sector gofal cymdeithasol o ran cadw staff.

## Mae angen digon o adnoddau ar lywodraeth leol i ymdrin â gofynion cynyddol

**15.** Dywedodd nifer o gyfranogwyr o'r sector llywodraeth leol nad oedd ganddynt ddigon o adnoddau yn wyneb y pwysau cynyddol ar bolisi a chyllid a'r cynnydd yn y galw ar eu gwasanaethau:

- Mae angen i Lywodraeth Cymru gydnabod y goblygiadau cost i lywodraeth leol wrth weithredu polisïau, megis cyflwyno terfynau cyflymder diofyn o 20 mya mewn ardaloedd adeiledig.
- Roedd galwadau am adolygiad o'r fformiwla ariannu bresennol ar gyfer llywodraeth leol, sy'n seiliedig ar ddosbarthiad a thueddiadau'r boblogaeth. Nodwyd nad oedd codi'r dreth gyngor i wneud iawn am unrhyw ddiffyg mewn cyllid yn ddatrysiad hirdymor priodol.
- Mynegwyd rhai pryderon ynghylch cynaliadwyedd Ardoll y Gwasanaethau Tân, gyda chynnydd disgwyliedig rhwng 10-15 y cant.
- Nodwyd nad oes gan lywodraeth leol ddigon o adnoddau i fynd i'r afael â'r cyfraddau cynyddol o ddigartrefedd.

- Yn yr un modd, roedd pryderon ynghylch y ffaith nad oes digon o adnoddau ar gael i ateb y galw am Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a nodwyd bod y cynllun hwn wedi cael llawer gormod o geisiadau gan yr holl awdurdodau lleol.

- Gan fod gwasanaethau statudol llywodraeth leol megis gofal cymdeithasol oedolion ac addysg yn flaenoriaeth, mynegwyd pryderon ynghylch diffyg adnoddau ar gyfer gwasanaethau dewisol megis hamdden, sydd â buddion gwariant ataliol cysylltiedig.

- Cafwyd trafodaethau ynghylch darparu prydau ysgol am ddim, gyda chyfranogwyr yn nodi y bydd angen cynnydd yn y cyllid i fodloni'r disgwyliad o ddarparu pryd maethlon ac iach i blant. Codwyd cwestiynau ynghylch sut y bydd y polisi prydau ysgol am ddim yn cael ei olrhain a'i fonitro i bennu ei effeithiolrwydd a'i werth am arian.

- Nodwyd pwysau cost mewn perthynas â darparu gwasanaethau cludiant, yn enwedig cludiant ysgol.

- Gwnaed sylwadau am well dealltwriaeth gan Lywodraeth Cymru o'r gwahanol amgylchiadau economaidd a chymdeithasol y mae awdurdodau lleol gogledd Cymru yn eu hwynebu o'i gymharu ag awdurdodau lleol yn ne Cymru.

## Mae effaith yr argyfwng costau byw yn dal i gael ei theimlo

**16.** Nododd un cyfranogwr nad yw'r argyfwng costau byw yn mynd i ddiflannu'n fuan, a thrafododd rhanddeiliaid yr effaith ehangach yr oedd yn ei chael ar draws y gymdeithas:

- Mae menywod yn cael eu heffeithio'n anghymesur gan yr argyfwng costau byw, sydd hefyd yn gwaethygu problemau cymdeithasol, yn enwedig cam-drin yn erbyn menywod a merched, a'r rhai heb hawl i arian cyhoeddus.

- Dylid symleiddio systemau a gwasanaethau cymorth i'r rhai sy'n dioddef cam-drin domestig a darparu mwy o gyllid i sefydliadau a busnesau hyfforddi staff i nodi'r arwyddion a darparu cymorth.

- Mae angen i atebion i broblemau cymdeithasol fod yn gynhwysfawr ac yn gyfannol, gan gynnwys nifer o wasanaethau iechyd a chymdeithasol, a'r trydydd sector a busnesau preifat i godi ymwybyddiaeth a darparu cymorth.

- Nodwyd mentrau a gyflwynwyd gan Lloyds Banking Group i roi cymorth i ddioddefwyr a goroeswyr achosion o gam-drin ariannol fel arfer da yn y sector preifat.
- Mae angen i grwpiau gwirfoddol sicrhau bod hyfforddiant diogelu yn cael ei gynnwys yn ysgrifenedig mewn gwahanol geisiadau am gyllid.
- Dylid cryfhau cysylltiadau rhwng elusennau menywod a sefydliadau eraill fel y gellir cyhoeddi hyfforddiant a chanllawiau priodol ar draws gwasanaethau.

## Mae angen ffocws ar atebion a arweinir gan y gymuned ac atal i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol tlodi ac anghydraddoldeb

**17.** Nododd y cyfranogwyr fod angen atebion arloesol a radical i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau sy'n ehangu a chyfraddau tlodi cynyddol ond bod llawer o waith i’w wneud o hyd:

- Mae cyfle i symleiddio’r prosesau cymorth ar gyfer y rhai sydd angen cymorth i liniaru tlodi a’r rhai sy’n dioddef cam-drin domestig fel eu bod yn haws i gael gafael arnynt. Mae angen gwneud mwy i sicrhau dull 'dim drws anghywir' ar gyfer pobl sy'n ceisio cymorth.
- Dylid annog gwasanaethau integredig gan eu bod yn darparu gwerth am arian ac yn lleihau aneffeithlonrwydd, a hefyd osgoi sefyllfaoedd lle mae sefydliadau yn dyblu ymdrechion.
- Nodwyd bod polisïau cyni wedi bod ar waith ers 2010, ac yna COVID-19, y rhyfel yn Wcráin a chwyddiant uchel. Mae'r ffactorau hyn wedi arwain at fwy o bwysau ar wasanaethau lleol ac wedi lleihau'r cyllid sydd ar gael i sefydliadau bach, a arweinir gan y gymuned.
- Mae'n teimlo fel bod sefydliadau a arweinir gan y gymuned yn colli cyllid ac nad oes rhaglen i ddisodli’r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf, ar adeg pan fo'i angen fwyaf.
- Roedd nifer o’r rhai a oedd yn bresennol yn teimlo bod angen i Lywodraeth Cymru fabwysiadu dull buddsoddi i arbed, gan gynnwys gwario arian ar fentrau atal i leihau anawsterau cymdeithasol ac iechyd sy’n codi yn y tymor canolig i hirdymor.

- Nodwyd pwysigrwydd mentrau cyffredinol, yn hytrach na mentrau wedi'u targedu ar gyfer y rhai sy'n cael cymorth lles. Roedd y rhain yn cynnwys canolfannau clyd, a mentrau chwarae.

- Roedd polisi bwyd yn hanfodol i sicrhau mentrau chwarae-gyfeillgar, ac ystyriwyd bod y Polisi Prydau Ysgol am Ddim yn hanfodol i ddarparu ymrwymiad hirdymor i sicrhau bod y sefyllfa'n gyfartal a lleihau anghydraddoldeb.

- Ystyriwyd bod mentrau chwarae, fel menter Haf o Hwyl a Gaeaf Llawn Lles Llywodraeth Cymru yn achubiaeth absoliwt. Nodwyd ei bod yn bwysig iddynt fod ar gael i bawb. Mae Cymru'n arwain y ffordd gyda'i pholisïau chwarae ac mae angen parhad yn y cyllid i sicrhau bod ei safle unigryw mewn perthynas â'r polisi hwn yn cael ei gynnal.

- Dylai Llywodraeth Cymru archwilio dulliau arloesol, megis symud i wythnos waith pedwar diwrnod a'r cysyniad dinasoedd 15 munud.

## Mae angen symud i ffwrdd o gyllid ad-hoc ar gyfer y sector gwirfoddol

**18.** Nododd y cyfranogwyr fod y sector gwirfoddol yn darparu gwasanaethau hanfodol yn ystod yr argyfwng costau byw ond ei fod yn wynebu nifer o heriau:

- Clywsom mai'r her i'r rhan fwyaf o sefydliadau trydydd sector/gwirfoddol yw eu bod yn angerddol dros wella bywydau pobl a chyflawni newid gwirioneddol, ond nad oes ganddynt y lefelau cywir o adnoddau i ddarparu'r lefelau angenrheidiol o gymorth.

- Mae'r sector gwirfoddol yn dibynnu'n fawr ar danwariant gan Lywodraeth Cymru i oroesi.

- Mae natur tymor byr cyllid gan Lywodraeth Cymru yn her enfawr a byddai cyllid tymor hwy, yn hytrach na chyllid ad-hoc sy'n ddibynnol ar danwariant adrannol, yn caniatáu mwy o ffocws ar brosiectau tymor hwy.

- Mae diffyg cyllid yn gyffredinol yn gwneud y broses o ymgeisio am gyllid yn llawer mwy cystadleuol.

- Nodwyd bod diffygion cyllid yn y trydydd sector yn cael effaith anghymesur ar fenywod, gan fod mwy o fenywod yn cael eu cyflogi yn y sector hwnnw na dynion.

## Troi potensial ynni gwyrdd Cymru yn realiti

**19.** Nododd y cyfranogwyr fod angen symud i ynni adnewyddadwy, a bod gan Gymru botensial enfawr, ond bod angen gwneud mwy i sicrhau ei bod yn barod ar gyfer y newid:

- Bydd ynni gwyrddach, rhatach yn helpu i ddelio â'r argyfwng costau byw.
- Rhaid i amgylchedd naturiol iach fod yn sail i gymdeithas a gweithlu hapus, iach a chynhyrchiol. Mae'n hanfodol i fynd i'r afael â'r argyfwng costau byw ac i'n helpu i fynd i'r afael â phroblemau systemig megis tlodi ac anghydraddoldebau.
- Nodwyd hefyd bod datgarboneiddio a mentrau carbon isel yn enghreifftiau da o fentrau gwyrdd gyda chanlyniadau cymdeithasol cadarnhaol. Fodd bynnag, nodwyd bod y rhain yn ddrud, er enghraifft, byddai'n costio £4 biliwn i ddatgarboneiddio'r farchnad dai.
- Nodwyd pwysigrwydd cynllunio morol i gefnogi twf ynni adnewyddadwy cynaliadwy ar y môr ym moroedd Cymru hefyd fel blaenoriaethau posibl.
- Nodwyd bod aneffeithlonrwydd ynni ar draws ystâd y sectorau cyhoeddus, yn enwedig yn y GIG, yn niweidiol o ran cyrraedd targedau newid hinsawdd.

# 3. Gweithdy gydag aelodau o Senedd Ieuenctid Cymru

## Cefndir

**20.** Ym mis Hydref 2016, pleidleisiodd y Senedd i sefydlu Senedd Ieuenctid Cymru fel corff penodedig. Mae'r Senedd Ieuenctid yn cynnwys 60 o aelodau, rhwng 11 a 18 oed, ac mae eu tymor yn para dwy flynedd.

**21.** Tymor y Senedd Ieuenctid bresennol yw 2021-23. Mae'r aelodau wedi dewis eu tri phwnc allweddol sef:

- yr hinsawdd a'r amgylchedd;
- addysg a'r cwricwlwm ysgol; ac
- iechyd meddwl a llesiant.

**22.** Gwahoddwyd aelodau o'r Senedd Ieuenctid i gymryd rhan mewn gweithdy i drafod ble y dylai Llywodraeth Cymru fod yn blaenoriaethu gwariant yn y flwyddyn ariannol nesaf (2024-2025).

**23.** Daeth pump aelod o'r Senedd Ieuenctid[3] i'r gweithdy ddydd Iau, 29 Mehefin 2023, i drafod eu barn a'u pryderon gydag Aelodau o'r Pwyllgor Cyllid:

- Fatmanur Aksoy, Dwyrain Casnewydd
- Ruben Kelman, Gogledd Caerdydd
- Ella Kenny, Dwyrain Abertawe
- Tegan Skyrme, Canolbarth a Gorllewin Cymru
- Ffion Williams, Gorllewin Caerdydd

## Crynodeb o'r trafodaethau

**24.** Gofynnwyd i aelodau'r Senedd Ieuenctid ddewis hyd at dri maes ble y dylai Llywodraeth Cymru flaenoriaethu cyllid yn y flwyddyn nesaf yn eu barn hwy, ac

[3] Nid oedd Rosemary Squires, Gorllewin Abertawe, yn gallu bod yn bresennol ac anfonodd ymddiheuriadau.

awgrymu ble y dylid gwneud toriadau pe bai Llywodraeth Cymru yn cynyddu gwariant yn y meysydd hyn.

**25.** Cafwyd safbwyntiau cymysg gan aelodau'r Senedd Ieuenctid ar ba feysydd y dylid cynyddu neu leihau gwariant arnynt. Er ei bod yn anodd iawn tynnu cyllid o feysydd, cydnabu aelodau'r Senedd Ieuenctid fod angen i Lywodraeth Cymru wneud penderfyniadau o'r fath er mwyn blaenoriaethu meysydd lle mae gwir angen gwariant.

## Meysydd y cytunodd aelodau'r Senedd Ieuenctid y dylid eu blaenoriaethu

### Iechyd a Gofal Cymdeithasol

**26.** Roedd consensws cyffredinol y dylai Iechyd a Gofal Cymdeithasol fod yn flaenoriaeth allweddol i Lywodraeth Cymru. Mae pwysau enfawr ar y GIG o hyd i fynd i'r afael â'r nifer o bobl yng Nghymru sy'n aros am lawdriniaethau neu driniaeth yn sgil y pandemig, sy'n uwch nag erioed. Nodwyd bod 'gweithlu iachach yn arwain at economi iachach.

### Addysg

**27.** Roedd aelodau'r Senedd Ieuenctid yn teimlo bod addysg hefyd yn flaenoriaeth allweddol. Nodwyd bod adeiladau ysgolion mewn cyflwr gwael, a bod angen mwy o fuddsoddiad cyfalaf. Mae angen gwell tâl ar athrawon, o ystyried bod disgwyliadau ychwanegol arnynt bellach. Tynnwyd sylw at effaith y streiciau diweddar gan athrawon ar ddysgu myfyrwyr, yn ogystal â phwysigrwydd gwella'r gefnogaeth i fyfyrwyr, o safbwynt academaidd a bugeiliol, yn enwedig ers pandemig COVID-19.

### Llywodraeth leol

**28.** Nodwyd y straen enfawr ar lywodraeth leol, yn enwedig o ystyried yr ystod o 'wasanaethau bob dydd' y mae'n gyfrifol amdanynt a'r cynnydd yn y gofynion a osodwyd arno o ystyried yr hinsawdd economaidd bresennol.

### Tai / digartrefedd

**29.** Roedd tai yn faes sy'n peri pryder, gyda phobl ifanc yn ei chael hi'n anodd prynu eiddo oherwydd y cynnydd ym mhrisiau tai. Roedd rhai o aelodau'r Senedd Ieuenctid yn teimlo y dylid buddsoddi mwy mewn adeiladu 'cartrefi cychwynnol' yn y 'lleoedd cywir'. Roedd hyn hefyd yn gysylltiedig â thrafnidiaeth a sicrhau bod seilwaith addas ar gyfer cymunedau.

**30.** Nodwyd hefyd bod rhent yn cynyddu a bod angen deddfwriaeth i reoleiddio tai, fel 'mesurau rheoli rhent', yn enwedig i ddiogelu pobl fregus. Nodwyd bod cysylltiad rhwng cyfraddau uchel o ddigartrefedd ac unigolion â nodweddion gwarchodedig.

### Trafnidiaeth

**31.** Cytunwyd bod angen gwneud rhagor i wella trafnidiaeth a seilwaith, a nodwyd bod gwasanaethau trên yn arbennig o wael ac annibynadwy, yn enwedig o ystyried y streiciau a'r oedi diweddar. Nodwyd bod pobl ifanc, yn enwedig y rhai ag anableddau, yn dibynnu'n helaeth ar drafnidiaeth gyhoeddus a bod angen iddo fod yn gynaliadwy.

### Yr argyfwng costau byw

**32.** Roedd yr holl aelodau yn bryderus iawn am yr argyfwng costau byw parhaus, a nodwyd ei fod yn gwaethygu, a'r effaith y mae'n ei chael ar gymunedau. Nodwyd bod angen i gyflogau godi, fel arall bydd yr 'argyfwng yn gwaethygu'. Nodwyd manteision y cynllun Prydau Ysgol am Ddim, a bod y cynllun yn parhau i gael ei gyflwyno mewn ysgolion cynradd ac yn cael ei ymestyn i addysg uwchradd. Nodwyd hefyd y cysylltiad rhwng yr argyfwng costau byw a chynnydd mewn materion iechyd meddwl.

## Meysydd yr oedd gan aelodau'r Senedd Ieuenctid safbwyntiau cymysg yn eu cylch o ran blaenoriaethau gwariant

### Newid hinsawdd

**33.** Roedd safbwyntiau cymysg ar bwysigrwydd rhoi blaenoriaeth i newid hinsawdd. Roedd rhai o aelodau'r Senedd Ieuenctid yn teimlo bod newid yn yr hinsawdd yn flaenoriaeth fawr ac yn dweud bod y data diweddar ar gynhesu byd-eang yn 'frawychus'. Roedd y cyfranogwyr yn teimlo y dylai Llywodraeth Cymru fod yn arloesi o ran polisïau gwyrdd ac, er bod Cymru yn wlad fach, y dylai fod yn arwain y ffordd ac yn gosod esiampl.

**34.** Fodd bynnag, roedd aelodau eraill o'r farn bod cyllid sylweddol eisoes wedi'i gyfeirio at newid yn yr hinsawdd, a nodwyd y gost o gyflwyno'r terfyn cyflymder diofyn o 20 mya, pan fo angen mynd i'r afael â materion sylweddol 'yn y presennol' fel y GIG ac adeiladau ysgolion.

### Yr economi

**35.** Roedd safbwyntiau cymysg am yr economi hefyd. Roedd rhai aelodau yn teimlo bod angen rhagor o gefnogaeth, yn enwedig o ran datblygu swyddi sy'n talu'n dda, tra bod eraill yn nodi bod rhai diwydiannau'n cael cymhorthdal mawr ac y dylai Llywodraeth Cymru fod yn dargyfeirio arian o'r fath i fentrau gwyrdd yn lle hynny.

### Materion gwledig

**36.** Unwaith eto, roedd safbwyntiau cymysg ynghylch a ddylid blaenoriaethu materion gwledig. Awgrymodd aelod mai dim ond i ffermydd sy'n dangos arferion cynaliadwy y dylid dyrannu cymorthdaliadau. Nododd eraill nad oes cyllid newydd yn lle rhai o'r cymorthdaliadau ffermio a gollwyd yn sgil Brexit, ac awgrymwyd bod hyn yn bwysig os yw Cymru am gael system fwyd gynaliadwy. Awgrymwyd hefyd bod angen i'r diwydiant ffermio fabwysiadu arferion mwy ecogyfeillgar.

## Meysydd lle roedd aelodau'r Senedd Ieuenctid yn cytuno y dylid gwneud toriadau

### Y Gymraeg / diwylliant / cysylltiadau rhyngwladol

**37.** Roedd consensws cyffredinol na ddylai gwariant penodol ar yr iaith, diwylliant a chysylltiadau rhyngwladol fod yn flaenoriaeth. Roedd yna deimlad bod swm mawr o arian eisoes yn cael ei wario ar yr iaith Gymraeg drwy feysydd eraill fel addysg. Ni roddwyd unrhyw resymau penodol pam na ddylai gwariant ar ddiwylliant a chysylltiadau rhyngwladol fod yn flaenoriaeth.

## Trethi Cymru

**38.** Mae tua 80 y cant o gyllideb Llywodraeth Cymru yn dod o gyllid Llywodraeth y DU ac mae 20 y cant ohoni'n dod o drethi Cymru.

**39.** Tra bod pob aelod yn gwybod bod gan Lywodraeth Cymru bwerau i godi trethi, nid oeddent yn gyfarwydd â'r trethi penodol.

**40.** Nodwyd mai'r meddylfryd yng Nghymru oedd bod trethi isel yn beth da, ond bod gwledydd eraill, er enghraifft ar draws Sgandinafia, yn ystyried bod trethi uwch yn allweddol wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus o safon uchel. Roedd teimlad cryf pe bai Llywodraeth Cymru yn defnyddio ei phwerau i gynyddu trethi, y byddai angen iddi ddangos yn glir ble y bydd yr arian yn cael ei wario fel y gallai'r cyhoedd gael rhywbeth yn ôl a gweld manteision dilyn dull o'r fath.

**41.** Roedd teimlad cryf hefyd y dylai codi trethi fod yn flaengar a chael ei anelu at fusnesau mawr, ac awgrymwyd y gellid cynyddu’r dreth gorfforaeth ar gyfer cwmnïau mawr sy'n aml yn elwa ar ostyngiadau treth yn y DU.

**42.** Mae'r aelodau'n cydnabod y byddai codi trethi yn yr hinsawdd ariannol bresennol yn anodd ac yn gwaethygu’r argyfwng costau byw, felly dylai unrhyw gynnydd gael ei dargedu at y rhai sy'n ennill cyflog uwch.

# 4. Grwpiau ffocws gyda sefydliadau ac unigolion

**43.** Cynhaliodd Tîm Ymgysylltu'r Senedd grwpiau ffocws gyda sefydliadau ac unigolion â diddordeb i ystyried ble y dylai Llywodraeth Cymru flaenoriaethu gwariant yn 2024-25.

**44.** Nod y gwaith ymgysylltu oedd cael gwybodaeth ansoddol am brofiadau cyfranogwyr a dwysáu dealltwriaeth y Pwyllgor o'r materion sy'n effeithio ar bobl Cymru.

**45.** Cynhaliwyd naw grŵp ffocws a dau gyfweliad gyda 43 o gyfranogwyr o 15 awdurdod lleol ledled Cymru. Daethpwyd o hyd i rai cyfranogwyr trwy sefydliadau porthgeidwaid. Roedd hyn er mwyn sicrhau bod y sampl yn gynrychioliadol yn ogystal ag amrywiol.

**46.** Mae'r dull gweithredu hwn wedi cael ei gomisiynu'n flynyddol gan y Pwyllgor Cyllid ers dechrau'r Senedd hon ac mae'n ategu ymgysylltu ar draws pwyllgorau. Trwy'r grwpiau ffocws hyn, clywodd y tîm gan ddinasyddion Cymru yn uniongyrchol. Mae'r dull hydredol hwn yn galluogi'r Pwyllgor i barhau i fonitro safbwyntiau ac agweddau dros amser, a cheir crynodeb o'r tueddiadau sydd wedi datblygu dros y tair blynedd diwethaf yn adroddiad y grŵp ffocws sydd i'w gael yn Atodiad B.

# Atodiad A: Rhestr o gyfranogwyr y digwyddiad i randdeiliaid

**47.** Cymerodd y sefydliadau a ganlyn ran yn y digwyddiad i randdeiliaid ym Mhrifysgol Glyndŵr Wrecsam ar 15 Mehefin 2023.

| | **Sefydliad** |
|---|---|
| **1** | Cymdeithas Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig Cymru |
| **2** | Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol |
| **3** | Sefydliad Prydeinig y Galon Cymru |
| **4** | Colegau Cymru / Coleg Cambria |
| **5** | Cartrefi Cymunedol Cymru |
| **6** | Cymdeithas Cludiant Cymunedol |
| **7** | Cyngor Sir y Fflint |
| **8** | Y Gymdeithas Cadwraeth Forol |
| **9** | Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol |
| **10** | Undeb Prifysgolion a Cholegau |
| **11** | Y Fenter |
| **12** | Prifysgolion Cymru |
| **13** | Conffederasiwn GIG Cymru (Saesneg yn unig) |
| **14** | Cymorth i Fenywod Cymru |
| **15** | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| **16** | Prifysgol Glyndŵr Wrecsam |
| **17** | Cyngor Sir Ynys Môn |

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cyllid**

# Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25

## Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu

Mehefin 2023

Fel rhan o waith craffu blynyddol y Pwyllgor Cyllid ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru, cynigiodd y Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion gyfres o grwpiau ffocws i gasglu barn pobl Cymru ynghylch ble y dylai Llywodraeth Cymru flaenoriaethu gwariant ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf.

Mae'r dull hwn wedi'i gomisiynu'n flynyddol gan y Pwyllgor Cyllid ers ei ymchwiliad craffu cyntaf i Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2022-23 (y cyfeirir ati o hyn ymlaen fel *Blwyddyn Un*). Cafodd y dull ei ddatblygu a'i gyflwyno ar gyfer y gwaith o graffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2023-24 (y cyfeirir ati o hyn ymlaen fel *Blwyddyn Dau*). Mae'r canfyddiadau ym mhrif ran y nodyn cryno hwn yn cyfeirio'n bennaf at ganfyddiadau eleni (y cyfeirir atynt o hyn ymlaen fel *Blwyddyn Tri*). Mae'r tueddiadau sydd wedi datblygu ers blwyddyn un i'w gweld ar dudalen 3.

## 1. Crynodeb o'r canfyddiadau

Dyma'r prif bwyntiau yn yr adroddiad hwn:

1. Cynhaliwyd 9 grŵp ffocws a 2 gyfweliad gyda 43 o gyfranogwyr mewn 15 awdurdod lleol ledled Cymru.

2. Cafodd **Iechyd a Gofal Cymdeithasol** eu blaenoriaethu amlaf gan gyfranogwyr, yna **Addysg** a'r **Economi.**

3. Cafodd **Plant a Phobl Ifanc, Trafnidiaeth** a **Thai a Digartrefedd** eu nodi hefyd gan y rhan fwyaf o'r grwpiau fel blaenoriaethau ar gyfer cyllid.

4. Wrth drafod meysydd a allai weld gostyngiad mewn cyllid, roedd y rhan fwyaf o gyfranogwyr yn blaenoriaethu **cysylltiadau rhyngwladol** a'r **Gymraeg**;

5. Roedd yn well gan eraill weld mwy o effeithlonrwydd yn y ffordd yr oedd cyllid yn cael ei wario, yn hytrach na nodi unrhyw feysydd yn benodol i gael gostyngiad.

6. Roedd y cyfranogwyr o blaid **cynyddu gwariant** ar y cyfan, er bod nifer o grwpiau yn dadlau o blaid **cynnal gwariant**. Nid oedd unrhyw gyfranogwyr yn teimlo y byddai'n ymarferol **lleihau gwariant**.

7. Roedd gwahaniaeth barn ar ddefnyddio **trethi neu fenthyca**, gyda dadleuon o blaid ac yn erbyn y ddau. Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr ond eisiau gweld **cynnydd mewn treth incwm** i'r rhai sy'n gallu ei fforddio neu **fenthyca** pan oedd yr arian hwnnw ar gyfer prosiectau mawr a fyddai'n gweld enillion ar y buddsoddiad.

8. Wrth fonitro unrhyw newidiadau mewn agwedd ers astudiaeth y llynedd, roedd y cyfranogwyr yn canolbwyntio mwy ar gynyddu gwariant ar gyfer **Iechyd a Gofal Cymdeithasol**. Yn ail, roedd **Addysg** yn parhau i fod yn faes pwysig iawn, a chrybwyllwyd yr **Economi** yn amlach eleni. Roedd hyn yn wahanol i flwyddyn un a dau lle y nodwyd **Addysg**, **Iechyd a Gofal Cymdeithasol** a **Newid hinsawdd** yn y drefn honno fel blaenoriaethau ar gyfer y ddwy flynedd.

9. Yn yr un modd, nodwyd **Cysylltiadau rhyngwladol** a'r **Gymraeg** fel meysydd i dderbyn llai o gyllid y llynedd hefyd.

10. Wrth gymharu agweddau tuag at wariant, roedd cyfranogwyr ym mlwyddyn un a dau i gyd o'r farn y dylid cynnal neu gynyddu cyllid ond nid oeddent bob amser yn cytuno â benthyca neu drethu i gyflawni hyn.

11. Teimlwyd mai **Gwella cartrefi** a **Chysylltu pobl** oedd y pwysicaf o gynlluniau Cenedlaethau'r Dyfodol, ac yna **buddsoddi mewn capasiti cynhyrchu ynni a bwyd Cymru.**

12. Roedd cyllid arloesol i ymdrin â heriau'r dyfodol yn cynnwys syniadau ynghylch **cynnig trafnidiaeth am ddim i bobl ifanc o dan 25** oed a creu **mwy o "fflatiau pontio" cyfeillgar i anifeiliaid anwes i bobl ifanc** ddeall sut i fod yn annibynnol.

13. Yn y rhan fwyaf o'r sesiynau ymgysylltu, cafodd **pobl hŷn a phobl ifanc** eu nodi gan gyfranogwyr fel grwpiau sydd angen mwy o gyllid penodol o bosibl. Tynnodd y cyfranogwyr sylw hefyd at amrywiaeth o grwpiau eraill fel aelodau o'r gymuned wledig, pobl ag anableddau cudd, pobl sydd eisiau newid gyrfa a phobl sy'n gadael y carchar fel rhai sydd angen mwy o help a chymorth. Yn debyg i flwyddyn un a dau, eleni, teimlai'r mwyafrif y dylai cyllid gael ei yrru gan **angen**, yn hytrach na chategoreiddio pobl.

14. Trafodwyd heriau sectorau penodol a rhoddwyd sylw i ystod o faterion o gadw a recriwtio staff yn y sectorau **iechyd a gofal cymdeithasol** i gysondeb cyllid ar gyfer **y trydydd sector**.

Wrth fonitro newidiadau mewn agweddau ers yr astudiaeth y llynedd:

15. Mae'n ymddangos bod cyfranogwyr wedi symud eu ffocws o Addysg fel ei phrif flaenoriaeth i **Iechyd a Gofal Cymdeithasol,** wedyn **Addysg** ac yna'r **Economi**. Ni chafodd newid hinsawdd ei drafod cymaint ym mlwyddyn tri ag ym mlwyddyn un a dau. Ym mlwyddyn un, yn y rhan fwyaf o'r sesiynau ni wnaeth yr economi hyd yn oed gyrraedd dewis blaenoriaethol unrhyw gyfranogwyr.

16. Yn ystod sesiynau a gynhaliwyd ar draws y tair blynedd, cafodd Cysylltiadau rhyngwladol a'r Gymraeg eu nodi fel meysydd i'w dadflaenoriaethu. Roedd hyn am yr un rhesymau yn bennaf. Yn ogystal, roedd yn well gan gyfranogwyr weld mwy o effeithlonrwydd o ran y ffordd yr oedd cyllid yn cael ei wario, yn hytrach na dadflaenoriaethu rhai meysydd.

17. O ran cynyddu neu ostwng trethi neu fenthyca, mae'n ymddangos bod yr holl gyfranogwyr yn cytuno bod angen cynyddu neu gynnal y lwfans cyllideb net. Nid oedd unrhyw gyfranogwyr eisiau gweld gostyngiad, yn hytrach nag ym mlwyddyn un a dau lle'r oedd nifer fach yn teimlo y gallai hyn fod yn fuddiol.

18. Unwaith eto, roedd barn gymysg ym mlwyddyn tri ynglŷn â sut i gynyddu cyllid. Yn debyg i flwyddyn dau, roedd ymdeimlad na fyddai trethu'r cyhoedd yn boblogaidd, ond ym mlwyddyn un roedd rhai cyfranogwyr yn hapus i gael eu trethu mwy pe byddai'r arian ychwanegol a gynhyrchir yn cael ei wario yng Nghymru.

19. Teimlwyd mai Gwella cartrefi a Chysylltu pobl oedd y pwysicaf o gynlluniau Cenedlaethau'r Dyfodol, ac yna buddsoddi mewn capasiti cynhyrchu ynni a bwyd Cymru. Mae hyn yr un peth ag ym mlwyddyn dau.

20. Fel gyda blwyddyn un a dau, awgrymodd y cyfranogwyr y gallai cyllid grant Llywodraeth Cymru gael ei ddiwygio, gan ffafrio cynlluniau cyllid hirdymor; mwy o addysg i'r cyhoedd ynghylch cyllidebu, dyled, costau byw, a'r dreth gyngor.

21. Ym mhob un o'r tair blynedd roedd y mwyafrif yn teimlo y dylai cyllid ar gyfer grwpiau penodol gael ei lywio gan angen.

# 2. Ymgysylltu

## Methodoleg

22. Cynhaliodd y Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion 9 grŵp ffocws a 2 gyfweliad yn ystod mis Mehefin 2023 gyda 43 o gyfranogwyr. Nod yr ymgysylltu oedd cael gwybodaeth ansoddol am brofiadau cyfranogwyr a chynyddu dealltwriaeth y Pwyllgor o'r materion sy'n effeithio ar bobl Cymru.
23. Y nod yw parhau i gynnal grwpiau ffocws gydol y Senedd hon er mwyn ffurfio astudiaeth hydredol fel y gall y Pwyllgor fonitro safbwyntiau ac agweddau dros amser.
24. Gofynnwyd cwestiynau tebyg i'r rhai a ofynnwyd yn ystod blwyddyn un a blwyddyn dau, gydag ambell ychwanegiad i adlewyrchu'r heriau presennol. Roedd y cwestiynau a ofynnwyd ym mhob grŵp ffocws yn seiliedig ar y cwestiwn cyffredinol: *Ar beth ydych chi am i Lywodraeth Cymru ganolbwyntio wrth wario?* Mae Atodiad 2 yn amlinellu'r cwestiynau manwl a ofynnwyd i gyfranogwyr.
25. Mae'r adroddiad ymgysylltu hwn yn amlinellu'r canfyddiadau allweddol a godwyd yn ystod y grwpiau ffocws a allai fod yn berthnasol i waith y Pwyllgor. Caiff themâu eu hamlygu drwy'r ddogfen ac maent wedi'u strwythuro o amgylch meysydd allweddol y cwestiynau a holwyd.
26. Dewiswyd themâu yn y nodyn hwn ar y sail eu bod yn codi droeon neu oherwydd eu bod yn flaenllaw yn y trafodaethau, gan roi cipolwg felly ar brofiadau byw'r cyfranogwr. Lle bo hynny'n bosibl ac yn briodol, dewiswyd dyfyniadau dienw i ychwanegu cyd-destun.
27. Bwriad y dull hwn yw ategu ymgysylltiad traws-bwyllgor a galluogi Aelodau i glywed yn uniongyrchol gan ddinasyddion Cymru.

## Cyfranogwyr

28. Daethpwyd o hyd i gyfranogwyr trwy sefydliadau partner tebyg er mwyn cael yr un ddemograffeg â'r llynedd, a threfnwyd grwpiau ffocws i ganolbwyntio ar feysydd polisi penodol.
29. Hoffai'r Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion ddiolch i bawb a gyfrannodd at y rhaglen ymgysylltu.

## Casglu data

30. Er mwyn sicrhau bod y ddemograffeg mor gynrychioliadol â phosibl o boblogaeth Cymru, cynhaliwyd arolwg cyn sgrinio. Gan weithio gyda sefydliadau allanol i rannu gwybodaeth am y cyfle, cwblhaodd 52 o gyfranogwyr yr arolwg cyn sgrinio o 19 ardal awdurdod lleol. Yna, gwahoddwyd 40 o gyfranogwyr i grŵp ffocws, gyda 16 yn derbyn y gwahoddiad.
31. Cafwyd hyd i 28 o gyfranogwyr drwy sefydliadau porthgeidwaid. Diben hyn oedd sicrhau bod y sampl hon yn gynrychioliadol yn ogystal ag yn amrywiol. Mae Atodiad 1 yn cynnwys rhestr lawn o sefydliadau a gynorthwyodd gyda'r dull ymgysylltu.
32. Roedd y cyfranogwyr a ddewiswyd i gymryd rhan ac a ymatebodd i'r gwahoddiad yn cynrychioli 15ardal awdurdod lleol, ac mae eu lleoliadau bras wedi eu marcio ar y map. Roedd ychydig llai na hanner yn dod o ardaloedd gwledig ac roedd y gweddill, bron yn gyfartal, yn dod o ardaloedd maestrefol a threfol.



33. Roedd y cyfranogwyr yn dod o holl ranbarthau'r Senedd.
34. Roedd y fformat ymgysylltu yn debyg ar y cyfan ar draws y grwpiau ffocws, ond yn amrywio ychydig er mwyn ymateb i'r safbwyntiau, y profiadau a'r syniadau a rannwyd gan gyfranogwyr.

# 3. Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu: Ym mha feysydd y dylai Llywodraeth Cymru **flaenoriaethu neu dadflaenoriaethu** cyllid yn y flwyddyn ariannol nesaf?

35. Gofynnwyd i gyfranogwyr nodi hyd at dri maes yr hoffent weld Llywodraeth Cymru yn blaenoriaethu neu'n dadflaenoriaethu cyllid ar eu cyfer yn y flwyddyn ariannol nesaf. Rhestrir y meysydd isod mewn trefn gyffredinol o'r uchaf i'r isaf.

## Iechyd a gofal cymdeithasol

36. Cafodd Iechyd a gofal cymdeithasol ei flaenoriaethu yn y rhan fwyaf o'r sesiynau ymgysylltu, gyda ffocws ar adolygu'r ffordd y mae'r ddau sector yn cael eu gweithredu ac awgrymiadau i ystyried uno'r ddau. Awgrymodd un cyfranogwr hefyd y dylid adolygu cyfranogiad llywodraeth leol mewn gofal cymdeithasol.

> *"Nid dim ond ymateb i'r argyfwng sy'n ein hwynebu heddiw yw hyn. Mae hefyd yn ymwneud ag ailstrwythuro iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn sicrhau ein bod yn osgoi argyfyngau yn y dyfodol". Gweithiwr Gofal iechyd proffesiynol*

37. Roedd un grŵp yn teimlo eu bod yn cael trafferth cyrraedd brig rhestrau aros a chael mynediad at eu meddyg teulu ac roedden nhw eisiau mwy o gyllid i gynyddu gwasanaethau ac amser gweithwyr proffesiynol.

38. Fodd bynnag, roedd y cyfranogwyr yn teimlo ar y cyfan nad oedd modd mynd i'r afael â'r heriau presennol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol gyda chyllid ychwanegol yn unig, a bod angen meddwl mwy am sut yr oedd y byrddau iechyd yn gweithredu. Dywedwyd bod "dull integredig" wedi bod yn llwyddiannus, ond nad yw hyn wedi'i weithredu ym mhob un o'r byrddau iechyd.

> *"Mae cymaint o anghysondeb o ran dulliau rhwng gwahanol fyrddau iechyd. Ac nid yw arferion gorau yn cael eu rhannu oherwydd y dulliau seilo a'u natur ranedig fel sy'n amlwg yn y sgyrsiau heddiw". Gweithiwr Gofal iechyd proffesiynol*

39. Mewn nifer o'r grwpiau, cafodd y mater o recriwtio a chadw staff ei godi fel problem daer. Mae strwythurau presennol staff asiantaeth yn achosi problemau diogelu a gostyngiad mewn morâl aelodau parhaol o staff. Ceir rhagor o fanylion am hyn ar dudalen 20.

> *"Mae myfyrwyr nyrsio wedi blino'n lân yn gweithio dros yr amser disgwyliedig o 37.5 awr ar gyfer eu lleoliadau, ac yna'n gweithio yn y nos ac ar eu dyddiau i ffwrdd er mwyn cefnogi eu hyfforddiant nyrsio" Gweithiwr gofal iechyd".* ***Gweithiwr gofal iechyd***

40. Dywedodd un cyfranogwr bellach ei bod wedi dod yn fwy effeithiol o ran cost i nyrsys hawlio budd-daliadau na gweithio ar y cyflog nyrsio presennol.

> *"Mae nhw wedi gostwng eu horiau er mwyn hawlio budd-daliadau oherwydd dydyn nhw ddim yn gallu fforddio parhau i nyrsio gan nad yw'r cyflogau'n ddigon uchel".* ***Gweithiwr Gofal iechyd proffesiynol***

41. Canfu gweithiwr proffesiynol sy'n gweithio ym maes gofal hirdymor fod pobl wedi bod yn aros yn hirach mewn ysbytai oherwydd "*diffyg sylweddol yn y cymorth cymunedol sydd ar gael*". Dywedodd fod "*pobl yn gorfod byw neu aros am gyfnodau hir yn y lleoliad acíwt lle gallent gael heintiau*".

> *"Roedd angen mwy o adnoddau yn y gymuned i ganiatáu i bobl naill ai aros yn eu cartrefi, neu i gael eu rhyddhau gyda chymorth gofal/i leoliad gofal. Yn syml, nid oes digon o wasanaethau i atal derbyniadau i'r ysbyty neu ganiatáu rhyddhau mewn modd amserol".* ***Gweithiwr Gofal iechyd proffesiynol***
>
> *Yn syml, ni allwn eu rhyddhau i'r lleoliad sydd orau ganddynt ac yn y pen draw maent yn marw yn yr ysbyty, sy'n drychineb llwyr".* ***Gweithiwr Gofal iechyd proffesiynol***

## Addysg a Plant a phobl ifanc

42. Maes arall a gafodd ei flaenoriaethu gan gyfranogwyr oedd Addysg. Teimlai'r cyfranogwyr fod buddsoddiad mewn addysg yn bwysig i sicrhau dyfodol pobl ifanc.

> *"Dod â nhw (plant) drwy'r system addysg, buddsoddi ynddyn nhw a chaniatáu iddyn nhw gyflawni eu potensial, eu grymuso ar gyfer y dyfodol yw'r ffordd i fod yn llwyddiannus".* ***Aelod o'r sector cyllid***

43. Roedd rhai grwpiau o'r farn bod addysg yn "*hanfodol*". Tynnodd un cyfranogwr sylw at y ffaith mai Cymru "*yn ôl pob tebyg sydd â'r cyfraddau presenoldeb gwaethaf erioed*", roedd yn teimlo ei fod yn bwysig canolbwyntio ar hyn er mwyn osgoi problemau yn y dyfodol.

> *"Lle mae pobl ifanc yn cael prydau ysgol am ddim, mae eu presenoldeb yn yr ysgol ar gyfartaledd o tua 80 y cant, felly mae gennych genhedlaeth gyfan o bobl ifanc nad ydyn nhw'n ymgysylltu â'r ysgol a'r coleg nac yn eu mynychu, sy'n mynd i gael effaith hirdymor ar yr economi ac ati. Mae hynny'n broblem enfawr ar gyfer y dyfodol os nad ydym yn mynd i'r afael â hyn yn awr."* ***Aelod o'r sector addysg***
>
> *"Mae angen i ni gael y genhedlaeth newydd yn barod ar gyfer y gyrfaoedd a fydd yn helpu ni yn y dyfodol."* ***Gweithiwr iechyd proffesiynol***

### Yr economi

44. Roedd llawer o gyfranogwyr o'r farn mai buddsoddiad yn yr economi *"yw'r ateb"* i faterion iechyd ataliol, adfer busnesau ac i leihau problemau cymdeithasol.

> *"Rwy'n meddwl mai un o'r heriau i Gymru yw nad yw'n ymddangos fel bod ganddi beiriant economaidd sylweddol a all weithredu i ariannu ein holl ddyheadau".* ***Person hŷn***
>
> *"Rwyf wedi dewis fy meysydd gan fod pob un ohonynt wedi'u seilio ar y mater o ddatblygu economaidd".* ***Aelod o'r Sector Cyllid***

### Plant a phobl ifanc (gan gynnwys gofal plant, chwarae, gwasanaethau ieuenctid)

45. Ymhellach i addysg, roedd llawer o gyfranogwyr yn teimlo bod cymorth i blant a phobl ifanc yn hanfodol i lwyddiant Cymru yn y dyfodol. Roedd y cyfranogwyr am weld mwy o gyllid ar gyfer gwasanaethau ieuenctid i helpu pobl ifanc i feithrin parch at eu cymuned.

> *"Dwi ddim yn meddwl ein bod ni'n buddsoddi digon yn y gwasanaeth ieuenctid a gofal plant nawr. Does dim digon iddyn nhw wneud. Os ydyn nhw'n cael problemau yn yr ysgol maen nhw'n cael eu labelu'n ddiog".* ***Cyfranogwr yn cyrchu gwasanaethau iechyd***
>
> *"Mae llawer o'r gwasanaethau ieuenctid lle ces i fy magu bellach wedi mynd neu wedi cael eu diddymu. Mae'n bwysig i bobl ifanc allu ymgysylltu a siarad â phobl".* ***Person ifanc***

46. Teimlai sawl cyfranogwr fod angen i Lywodraeth Cymru annog dyheadau'n ehangach nag yn lleol a meithrin amgylchedd sy'n caniatáu teithio haws i ehangu cyfleoedd pobl ifanc.

> *"O safbwynt busnes mae'n rhaid i ni feddwl am ddyhead. Rwy'n gweithio'n aml fel gwirfoddolwr, gyda Menter yr Ifanc, a dwi wedi bod yn gwneud hynny ers degawdau. Ac rwy'n credu ei bod hi'n hynod drist mynd i mewn i ysgolion i siarad am eu dyheadau, sydd mor aml yn gyfyngedig i'r hyn maen nhw'n ei weld o fewn radiws pum milltir i ble maen nhw'n byw".* ***Aelod o'r sector cyllid***

47. Cododd nifer o gyfranogwyr y mater o ofal plant a'r heriau y mae llawer o rieni a gofalwyr yn eu hwynebu wrth geisio dod o hyd i ofal plant fforddiadwy i barhau â'u gyrfaoedd.

> *"Mae gofal plant yn ddrud iawn. Mae'n anodd dod o hyd i swydd sy'n hyblyg o ran trefniadau gofal plant. [...] Rydw i eisiau gweithio'n llawn amser, ond ar hyn o bryd dwi ddim yn gallu gwneud hynny".* ***Person â phrofiad o ddigartrefedd***

## Trafnidiaeth

48. Nododd sawl grŵp broblemau gyda'r cynigion trafnidiaeth presennol.

> *"Efallai y bydd pobl ifanc yn penderfynu eu bod nhw'n mynd i aros yn yr ysgol dim ond am nad ydyn nhw'n gallu fforddio'r tocyn bws i deithio i'w coleg lleol [...] Mae cymaint o swyddi gwag ar hyn o bryd mewn cymaint o wahanol rolau a rhan o'r rheswm am hynny yw na all pobl ifanc Aberdâr gyrraedd adref ar ôl 6 o'r gloch y nos ar drafnidiaeth gyhoeddus. Felly, mae eu gallu i fynd i gael swydd yn seiliedig ar y seilwaith trafnidiaeth ac yn ôl pob tebyg y gost."* ***Aelod o'r sector addysg***
>
> *"Trafnidiaeth, mae hynny'n broblem enfawr o hyd."* ***Person hŷn***
>
> *"Mae angen trafnidiaeth arnoch er mwyn i bobl fynd allan. Ni all pobl fynd o Bontypridd i Gaerdydd i weld sioe neu unrhyw beth oherwydd ni allant gael trafnidiaeth adref". Person hŷn*

49. Yn ogystal â chynyddu argaeledd trafnidiaeth gyhoeddus, roedd pobl ifanc eisiau gweld gwelliannau mewn teithio llesol a hygyrchedd corfforol (gan gynnwys cyllid i sicrhau bod cyhoeddiadau sain ar gyfer pobl â nam ar eu golwg).

> "Mae angen gwneud beicio yn fwy hygyrch i bobl." Person ifanc

## Tai / Digartrefedd

50. Roedd y cyfranogwyr yn cysylltu tai o ansawdd da ac ariannol hyfyw â iechyd meddwl a chorfforol da.

> *"Mae'n gwneud cymaint o wahaniaeth os oes gan rywun gartref i fyw ynddo".* Person ifanc

51. Er ei fod yn cydnabod datganoli a'i derfynau, teimlai un cyfranogwr fod strategaethau fel gwella cartrefi ar draws Cymru o fewn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, yn cael eu peryglu gan bolisïau ariannol y gallai Llywodraeth Cymru lobïo yn eu herbyn.

> *"Mae deddfwriaeth TAW ar osod paneli solar ac insiwleiddio waliau allanol yn cael ei drafftio ar lefel genedlaethol ac nid yw'n caniatáu cyfradd sero sy'n golygu os ydych am wario £1 miliwn ar wella stoc tai fe fyddai'n rhaid i chi wario £1.2 miliwn oherwydd byddai'n rhaid i chi dalu'r TAW, ond pe gallai hynny fod ar gyfradd sero, byddech ond yn gwario un filiwn […] gallai Cymru fod yn fwy rhagweithiol o ran mynegi ei llais ynghylch sut y mae pethau'n gweithio ar lefel trethiant, a gallai hynny gael dylanwad buddiol ledled y gymuned ehangach".* Aelod o'r sector cyllid

## Newid Hinsawdd

52. O gymharu â blynyddoedd blaenorol, ni wnaeth y cyfranogwyr dynnu cymaint o sylw at newid hinsawdd ag ym mlwyddyn un a dau. Yn gyffredinol, cafodd newid hinsawdd ei ystyried fel maes eang sy'n torri ar draws sawl un o feysydd allweddol y gyllideb. Fodd bynnag, roedd y cyfranogwyr yn teimlo y dylai fod yn nod hirdymor a oedd yn gofyn am dull gweithredu hirdymor.

> "Tydyn ni ddim yn mynd i ddatrys newid hinsawdd ond o ymateb yn gryf iddo bydd cymunedau yn fwy iachus a bydd lles pobl yn well." Ymarferwr iechyd

53. Roedd sawl cyfranogwr o'r farn y gellid creu mwy o ynni yng Nghymru i gefnogi cynaliadwyedd a hyd yn oed creu incwm i'r genedl o bosibl.

> *"Rwy'n credu bod gennym gyfleoedd gwych yma yng Nghymru i gynhyrchu ynni ac nid ydym yn eu defnyddio". Person ifanc*

## Amaethyddiaeth / Materion gwledig

54. O ran blaenoriaethu amaethyddiaeth, soniodd lawer o gyfranogwyr am gynhyrchu bwyd a dod yn fwy hunangynhaliol er mwyn bod yn fwy ystyriol o newid hinsawdd.

> "Mae Cymru'n cynhyrchu bwyd o'r safon uchaf ac mae ganddi enw da am hynny. Mae angen buddsoddi yn hyn. Felly, mae angen lleihau mewnforio bwyd – dyna oedd bwriad brexit – ond mae hefyd angen allforio ein cynnyrch gorau." Aelod o'r sector amaethyddiaeth

## Diwylliant (gan gynnwys y celfyddydau, chwaraeon a threftadaeth)

55. Awgrymodd sawl cyfranogwr y dylid dadflaenoriaethu'r maes hwn.

*"Cymaint ag ydw i'n mwynhau chwaraeon, treftadaeth a'r celfyddydau, pe bai rhywbeth yn mynd i ddioddef ergyd, ac o ystyried y cyfnod anodd hwn rydym mewn sefyllfa ddifrifol ar ôl y cyfnod o lymder a'r pandemig ac mae'n rhaid i chi wneud rhai penderfyniadau anodd o ran y gyllideb. [..] Mae gan Gymru ddiwylliant chwaraeon sefydledig iawn eisoes".* Aelod o'r sector cyllid

*"Dwi'n meddwl mae'n debyg y gallai diwylliant a'r Gymraeg gael eu cefnogi gan bobl sy'n unigolion brwd iawn". Perchennog busnes*

**Llywodraeth Leol**

56. Dywedwyd bod y broses o wneud penderfyniadau ar lefel llywodraeth leol yn *"allweddol"* ar gyfer cymunedau, ac ar gyfer adfywio canol trefi gan un cyfranogwr â chefndir mewn busnes. Fodd bynnag, roedd llawer o gyfranogwyr yn galw am ddiwygio awdurdodau lleol.

*"Mae 22 awdurdod ar draws Cymru ar gyfer poblogaeth o'n maint ni o ran yr hyn rydyn ni'n ei reoli o gymharu â Birmingham, sydd â thri". Aelod o'r sector cyllid*

57. Roedd un cyfranogwr yn teimlo *"ei fod yn gwbl hanfodol newid y system ardrethi busnes"*. Roedd manwerthwyr yn obeithiol y bydd Llywodraeth Cymru yn rhewi'r lluosydd ardrethi busnes eto eleni, fel y gwnaethant y llynedd.

*"Er eu bod yn dod â £1.1 biliwn i mewn, maen nhw hefyd yn rhwystr enfawr i fuddsoddiad yn y dyfodol [...] gallant roi manwerthwyr bach mewn sefyllfa ar ymyl y dibyn pan fyddant yn tyfu mewn maint ac yna'n gorfod talu cyfraddau busnes enfawr". Perchennog busnes*

**Y Gymraeg**

58. Roedd y Gymraeg yn faes arall a ddewiswyd gan y rhan fwyaf o gyfranogwyr i'w ddadflaenoriaethu gyda llawer yn teimlo, er ei bod yn rhan bwysig o hunaniaeth a diwylliant Cymru, bod llawer eisoes wedi'i gyflawni i hybu'r iaith ac y gellid gwneud arbedion yn awr. Awgrymodd rhai cyfranogwyr y gallai hwn fod yn ateb tymor byr i fynd i'r afael â heriau y teimlent oedd yn rhai mwy brys yn yr hinsawdd bresennol.

*"Rwy'n gwybod bod y Gymraeg yn rhywbeth y mae pobl yn falch iawn ohoni, ond weithiau mae'n rhaid i chi flaenoriaethu ac rwy'n meddwl bod digartrefedd yn bwysicach na'n balchder". Person â phrofiad o ddigartrefedd*

*"Rwy'n meddwl bod yn rhaid i ni gydnabod o ble y daw'r buddsoddiad mwyaf effeithiol ar flaenoriaeth. Byddwn i wrth fy modd yn gallu siarad yr iaith, [...] ond dydw i ddim yn synhwyro'r gwerth ychwanegol ac*

*rwy'n credu bod hynny'n cael ei gefnogi gan nifer y siaradwyr sy'n disgyn yn y cyfnod ar ôl addysg". Aelod o'r sector cyllid*

59. Fodd bynnag, roedd rhai cyfranogwyr yn blaenoriaethu'r Gymraeg. Eglurodd fod cyllid wedi ei gefnogi i ddod yn siaradwr Cymraeg ac yr hoffai gael mwy o gyfleoedd i barhau i ddysgu.

"Lle dwi'n byw, does dim llawer o bobl yn siarad Cymraeg, a dwi eisiau siarad Cymraeg drwy'r amser ond dwi ddim yn cael y cyfle." Gweithiwr Gofal iechyd proffesiynol

*"Dwi wedi colli fy Nghymraeg achos pan es i mewn i ofal, ges i fy rhoi mewn lleoliad maeth, lle nad oedd neb yn siarad nac yn deall Cymraeg". Person ifanc*

**Cysylltiadau Rhyngwladol**

60. Nodwyd cysylltiadau rhyngwladol gan fwyafrif y grwpiau gyda theimlad y dylid gadael y cyfrifoldeb i lywodraeth y DU gan nad yw hwn yn faes wedi'i ddatganoli.

*"Mae cysylltiadau rhyngwladol yn gyfrifoldeb y Deyrnas Unedig i raddau helaeth". Person hŷn*

**Effeithlonrwydd gwariant**

61. Pan ofynnwyd i'r cyfranogwyr ddadflaenoriaethu meysydd, mynegodd llawer ohonynt bryderon ynghylch torri rhai meysydd cyllid dros eraill ac roeddent am weld mwy o graffu ar ddyrannu cyllid, llywodraethu gwell, a gwelliant o ran effeithlonrwydd gwariant.

*"Mae gen i bryderon mawr am y monitro a'r oruchwyliaeth oherwydd yn aml iawn mae'n teimlo fel ein bod ni'n taflu arian mewn twll du a does dim byd yn gwella". Person hŷn*

62. Defnyddiwyd llywodraeth leol gan nifer o grwpiau fel enghraifft o lle yr hoffent weld mwy o dryloywder a gwariant mwy effeithiol. Roedd un cyfranogwr o'r sector addysg yn teimlo nad yw'r cyllid ar ôl yr UE wedi *"dod nôl drwy gyllideb Cymru"*.

63. Roedd rhai o'r cyfranogwyr yn teimlo bod y broses o lunio polisïau wedi colli gafael ar bethau.

> *"Mae yna ddatgysylltiad rhwng dealltwriaeth y sector cyhoeddus a realiti bywyd ar lawr gwlad [...] Rwy'n credu bod hynny'n rhywbeth y mae angen i Lywodraeth Cymru ei wneud - addysgu eu hunain am y realiti". Aelod o'r sector cyllid*

# 4. Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu: Pe baech yn meddwl yn benodol sut y gallai Llywodraeth Cymru gael yr effaith fwyaf ar wella iechyd a llesiant y boblogaeth, a chreu'r amodau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd i bawb allu ffynnu, sut fyddech chi'n blaenoriaethu'r gyllideb?

64. Am y tro cyntaf eleni, gwahoddwyd cyfranogwyr i ailasesu eu blaenoriaethau wrth ganolbwyntio ar y cwestiwn uchod. Ni newidiodd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr eu hatebion gwreiddiol ond gwnaethant sylwadau ar bwysigrwydd iechyd meddwl a llesiant da.

> *"Dydw i ddim yn teimlo bod digon yn cael ei wario ar iechyd meddwl, nid yn unig i ddynion a menywod ac oedolion, ond i blant hefyd [...] Rydw i a fy nheulu yn wynebu problemau personol ar hyn o bryd. Mae wedi bod yn anodd iawn cael gafael ar therapi chwarae i fy mrawd bach. Bu farw fy mam ym mis Medi ac mae wedi cymryd tua saith mis iddo gael cyfle i weld therapydd ac mae llawer o ddifrod yn gallu digwydd mewn saith mis. Yn amlwg, rydym yn gwerthfawrogi'r cymorth, ond rydym yn teimlo y bu'n rhaid i ni aros ychydig yn rhy hir. Y rheswm wnaethon nhw roi i ni oedd diffyg cyllid".* ***Person â phrofiad o ddigartrefedd***

65. Roedd un cyfranogwr eisiau i wasanaethau gael eu cynnig sy'n addas i'r bobl y mae arnynt eu hangen ac i beidio â gweithredu *'un dull sy'n addas i bawb'*. Roedd yn teimlo nad oedd iechyd meddwl gwael yn cael ei ystyried gymaint o ddifrif â iechyd corfforol gwael. Rhoddodd enghraifft o berson digartref a oedd yn hapusach yn byw ar y stryd oherwydd ar ôl dioddef Anhwylder Straen Wedi Trawma, nid oedd yn gallu byw mewn bloc o fflatiau ond dyma oedd yr unig opsiwn o gymorth a gynigiwyd iddo, *"weithiau mae'n rhaid i chi feddwl y tu hwnt i'r ffiniau"*.

66. Roedd llawer o gyfranogwyr am weld iechyd meddwl a llesiant yn cael eu cynnwys fel rhan weithredol o'r broses o lunio polisïau.

> Gweithiwr Gofal iechyd proffesiynol

*"Gallen ni adeiladu deg o ysbytai yfory a bydden ni'n gallu eu llenwi nhw. Felly, mae'n rhaid meddwl am ffyrdd o ddarparu gwasanaethau ac atal afiechyd mewn ffyrdd gwahanol".*

67. Roedd cyfranogwyr eisiau gweld mwy o fynediad at fwyd iach ac anogaeth i fwyta'n iach.

*"Mae cynhyrchu bwyd iach yn bwysig iawn ar gyfer llesiant. Os gall Cymru gynhyrchu bwyd iach, byddai hynny'n helpu'r boblogaeth". Perchennog busnes*

68. Roedd y cyfranogwyr yn teimlo bod angen newid diwylliant o ran agweddau at fwyd, nid yn unig addysgu pobl am fwyta'n iach - mae angen i archfarchnadoedd chwarae eu rhan hefyd.

"Mae'r bwydydd yn yr archfarchnad yn siwgr i gyd, ond gan eu bod nhw ymhob archfarchnad mae pobl yn meddwl mai dyma yw bwyd go iawn." *Gweithiwr gofal iechyd proffesiynol*

# 5. Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu: A ddylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio ei phwerau trethu a/neu fenthyca i gynyddu, lleihau neu gynnal cyllid cyffredinol?

69. Yn gyntaf, gofynnwyd i'r cyfranogwyr a oeddent yn ymwybodol o sut yr oedd cyllideb Llywodraeth Cymru yn cael ei hariannu, a rhoddwyd dadansoddiad iddynt o'r symiau a godir gan drethi penodol. Nid oedd llawer o gyfranogwyr yn ymwybodol o sut mae'r gyllideb yn cael ei hariannu. Roedd gan y rhan fwyaf o gyfranogwyr rywfaint o ymwybyddiaeth o sut mae'r gyllideb yn cael ei hariannu o ran datganoli, ond nid o'r symiau penodol a'r trethi penodol dan sylw. Roedd nifer fach o'r cyfranogwyr a oedd yn gweithio mewn sectorau sy'n talu ardrethi busnes neu a oedd yn gweithio yn y sector cyllid yn gwbl ymwybodol o'r ffordd y mae'r gyllideb yn cael ei hariannu.

70. Yna gofynnwyd i gyfranogwyr roi sylwadau ynghylch a fyddai'n well ganddynt weld gwariant yn cynyddu., lleihau neu'n aros yr un fath, ac a ddylid newid symiau trethi neu fenthyca er mwyn cyflawni hyn. Yn gyffredinol, roedd grwpiau'n cytuno bod angen cynnydd neu lefel wedi'i chynnal. Nid oedd unrhyw gyfranogwyr yn teimlo y byddai'n ymarferol gostwng y gyllideb.

> *"Dwi'n meddwl ein bod ni bellach yn byw mewn cymdeithas lle na allwn osgoi'r sgwrs o gynyddu treth".*
> *Person ifanc*

### Trethu a benthyca

71. Roedd safbwyntiau ar drethi yn amrywio hefyd, er bod pawb yn erbyn cynyddu treth incwm ar gyfer y rhai a oedd eisoes yn cael trafferthion ariannol ac yn teimlo y dylai unrhyw gynnydd mewn trethi gael ei gyfeirio at y rheini ag incwm uwch neu fusnesau mawr. Mynegodd rhai cyfranogwyr bryderon ynghylch cael y cydbwysedd yn iawn o ran codi treth gan eu bod yn teimlo y byddai cynnydd yn y dreth i'r rhai sy'n ennill cyflogau isel yn achosi caledi ond y gallai arwain y rheini sy'n ennill cyflogau uchel i fynd dros y ffin, neu wneud i busnesau sydd am weithio yng Nghymru benderfynu beidio â gwneud hynny os nad yw gwledydd cyfagos yn trethu cymaint.

*"Dydw i ddim yn meddwl bod pobl yn mynd i fod yn hapus gyda chynnydd mewn trethi a rhagor o fenthyca, mae hynny'n gofyn am drwbl". Person ifanc*

*"Mae yna ateb hawdd, trwy ychwanegu canran at gyfradd treth incwm er mwyn sicrhau refeniw, ond mae pobol yn dioddef ac yn wynebu trafferthion, a dwi'n meddwl bod yna berygl o greu amrywiaeth, yn enwedig ar y ffiniau rhwng Cymru a Lloegr". Aelod o'r sector cyllid*

72. O ran benthyca, roedd rhai cyfranogwyr yn poeni bod cyfraddau llog yn codi ac yn gosod baich ar genedlaethau'r dyfodol. Fodd bynnag, roedd rhai cyfranogwyr yn teimlo pe bai'r prosiectau'n gwneud elw ar y buddsoddiad, byddent yn fwy cyfforddus gyda'r syniad o fenthyca mwy.

# 6. Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu: A ddylai'r nodau a amlinellwyd gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru fod yn flaenoriaethau?

73. Holwyd y cyfranogwyr am nifer o gynlluniau a amlinellwyd fel ffocws gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru ac a oeddent yn teimlo bod y rhain yn bwysig i ganolbwyntio arnynt ar hyn o bryd. Teimlai llawer o gyfranogwyr fod y cynlluniau yn rhyng-gysylltiedig.

> *"Maen nhw i gyd yn rhyng-gysylltu, os ydych chi'n rhoi'r swm cywir o wariant gan y llywodraeth, byddan nhw i gyd yn tyfu". Person â phrofiad o ddigartrefedd*

74. Teimlwyd mai Gwella cartrefi a Cysylltu pobl oedd y pwysicaf o gynlluniau Cenedlaethau'r Dyfodol, ac yna buddsoddi mewn capasiti cynhyrchu ynni a bwyd yng Nghymru.

**Gwella cartrefi ledled Cymru – gan gynnwys datgarboneiddio cartrefi, adeiladu tai fforddiadwy carbon isel newydd a rhaglen genedlaethol i wella effeithlonrwydd ynni cartrefi presennol.**

75. Dywedodd cyfranogwyr y rhan fwyaf o'r grwpiau fod y cynllun hwn yn bwysig iawn o ystyried yr angen i greu cartrefi ynni effeithlon yng ngoleuni'r argyfwng costau byw presennol. Soniodd nifer o gyfranogwyr hefyd am sut y gallai Cymru ei chael hi'n anodd cefnogi'r cynllun hwn oherwydd diffyg gweithlu medrus. Teimlai un cyfranogwr y dylai Cymru edrych ar fodel a ymgorfforwyd yng Ngweriniaeth Iwerddon lle defnyddir cyllid wedi'i neilltuo i greu canolfannau addysg ar draws y rhanbarth i ddarparu hyfforddiant sgiliau ôl-osod i'r boblogaeth sy'n gweithio.

> *"Oni bai bod gennych strategaeth a pholisi clir ar addysg, ni fydd gennych y sgiliau i allu hyfforddi pobl â'r sgiliau sydd eu hangen i gyflawni'r cynllun. Mae ôl-osod yn enghraifft dda o hynny". Aelod o'r sector addysg*

**Cysylltu a symud pobl – gan gynnwys gwella cysylltedd digidol, teithio llesol (ffyrdd o deithio heb fodur er enghraifft ar feic) a thrafnidiaeth gyhoeddus**

76. Roedd mwyafrif y cyfranogwyr yn teimlo bod y cynllun hwn yn bwysig iawn gyda sylwadau penodol ynghylch gwella cysylltedd digidol, a gwella seilwaith trafnidiaeth.

*"Byddwn i'n dadlau bod problem seilwaith. Mae band eang yn parhau i fod yn warthus mewn ardaloedd gwledig. Nid oes gennym y seilwaith ar gyfer dŵr gwastraff yng Ngorllewin Cymru. Allwch chi ddim cynhyrchu mwy o ynni mewn rhai rhannau o Gymru oherwydd ni fyddai'r llinellau pŵer sy'n dod allan o'r ardal honno'n gallu ymdopi".* Aelod o'r gymuned ffermio

77. Roedd cyfranogwyr o ardaloedd trefol a gwledig o'r farn bod diffyg trafnidiaeth addas, effeithlon a chost-effeithiol yn broblem.

**Buddsoddi yng nghapasiti cynhyrchu bwyd o Gymru i leihau dibyniaeth ar fewnforion**

78. Nododd y rhan fwyaf o gyfranogwyr bod y cynllun hwn yn bwysig iawn, yn enwedig yng ngoleuni Brexit, yr argyfwng costau byw, ac er mwyn cyrraedd targedau hinsawdd.

"Mae ganddon ni gymaint o [gyfle] i gynhyrchu bwyd yma yng Nghymru ac rydyn ni'n ei anfon e dramor. Mae hi'n anodd prynu cig oen lleol yma." Aelod o'r sector amaethyddiaeth

79. Roedd llawer o'r cyfranogwyr yn teimlo y dylai dod yn fwy hunangynhaliol fel cenedl fod yn flaenoriaeth i Gymru. Awgrymodd un cyfranogwr hefyd y byddai ffocws ar bynciau STEM yn cryfhau cyfleoedd i ddinasyddion Cymru.

*"Rydyn ni wedi colli'r elfen o dyfu yng Nghymru ac mae'n rhaid i ni fewnforio cymaint yn awr sy'n golygu ein bod ni'n ychwanegu at yr ôl troed carbon, ac nid ydym yn cefnogi ein busnesau lleol".* Gweithiwr Gofal iechyd proffesiynol

**Buddsoddi yng nghapasiti cynhyrchu ynni Cymru i leihau dibyniaeth ar fewnforion.**

80. Teimlai'r cyfranogwyr y gellid gwneud cymaint mwy gan ddefnyddio ein hadnoddau naturiol yng Nghymru.

*"Rwy'n credu bod gennym gyfleoedd gwych yma yng Nghymru ar gyfer cynhyrchu ynni ac nid ydym yn eu defnyddio". Person ifanc*

*"Mae cryn botensial i Gymru ddod yn hwb ynni gwyrdd..Rydyn ni'n wyntog ac yn wlyb a dylai hynny weithio er ein budd ni!"* Gweithiwr Gofal iechyd proffesiynol

# 7. Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu: Arloesi mewn cyllid i fynd i'r afael â heriau'r dyfodol

81. Gofynnwyd i'r cyfranogwyr am syniadau ynghylch sut y gallai Llywodraeth Cymru fod yn arloesol yn y ffordd y mae'n ariannu pob sector er mwyn mynd i'r afael â heriau'r dyfodol, megis yr argyfwng costau byw, cefnogi adferiad busnes, trawsnewid i economi carbon is; ac ymateb i newidiadau ar ôl Brexit. Gwnaeth llawer o gyfranogwyr awgrymiadau. Gwnaed rhai o'r awgrymiadau hefyd ym mlwyddyn un a dau.

**Roedd y canlynol ymhlith yr awgrymiadau:**

82. Diwygio'r ffordd y caiff cyllid grant ei ddyrannu er mwyn osgoi'r cylchoedd ariannu tymor byr a'r amser a dreulir ar geisiadau grant (cafodd hyn ei grybwyll ym mlwyddyn un a dau)

83. Addysgu pobl o oedran cynnar ynghylch cyllidebu, dyled, costau byw, y dreth gyngor (cafodd hyn ei grybwyll ym mlwyddyn un a dau)

84. Rhoi pwysau ar San Steffan i ganiatáu i sefydliadau sy'n gweithio tuag at dargedau newid hinsawdd gael eu heithrio rhag TAW

85. Diwygio strwythur yr awdurdodau lleol a system y dreth gyngor

86. Creu "fflatiau pontio" cyfeillgar i anifeiliaid anwes ar gyfer pobl ifanc er mwyn iddynt ddeall sut i fod yn annibynnol

87. Cynnig trafnidiaeth am ddim neu â chymhorthdal i bobl ifanc dan 25 oed. Neu greu opsiynau trafnidiaeth gyhoeddus 24 awr ar gyfer dinasoedd Cymru.

88. Grantiau i fusnesau sy'n cychwyn allu cael gafael ar gyngor y telir amdano

89. Defnyddio chwaraeon a diwylliant i fynd i'r afael â materion yn ymwneud ag iechyd meddwl a llesiant gwael

90. Cynnig gwiriadau iechyd rheolaidd ar rai oedrannau bywyd penodol, er mwyn helpu i atal problemau iechyd rhag dod i’r amlwg

# 8. Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu: A ddylai rhai grwpiau o gymdeithas dderbyn mwy neu lai o gyllid i gefnogi cymdeithas fwy cyfartal?

91. Gofynnwyd i'r cyfranogwyr a ddylai Llywodraeth Cymru flaenoriaethu cyllid ar gyfer grwpiau penodol o bobl yn y gymdeithas.

92. Yn y rhan fwyaf o'r sesiynau, cafodd pobl hŷn a phobl ifanc eu nodi gan gyfranogwyr fel grwpiau sydd angen mwy o gyllid penodol o bosibl.

*"Mae pobl hŷn yn haeddu mwy o barch nag y maen nhw'n ei gael ar hyn o bryd."* ***Aelod o'r sector amaethyddiaeth***

*"Mae'r dechrau rydych chi'n ei gael mewn bywyd yn effeithio ar weddill eich bywyd […] Os ydyn ni wedi gwneud hynny'n iawn, bydd gennym ni grŵp cwbl newydd o bobl ifanc a all gefnogi'r economi".* Aelod o'r sector cyllid

93. Tynnodd y cyfranogwyr sylw hefyd at amrywiaeth o grwpiau eraill fel aelodau o'r gymuned wledig, pobl ag anableddau cudd, pobl sydd eisiau newid llwybr eu gyrfa a phobl sy'n gadael y carchar fel rhai sydd angen mwy o help a chymorth.

94. Ystyriwyd bod pobl sy'n gadael carchar yn agored i niwed neu "*heb obaith*" gyda'r system bresennol o ddileu llety a ariennir cyn gynted ag y maent yn cael swydd.

*"Gall cael y ddau brofiad bywyd enfawr hynny'n gwrthdaro (cael cyflogaeth a gorfod symud tŷ) gael effaith ar berson fel unigolyn ond mae hefyd yn effeithio ar gynaliadwyedd eu cyflogaeth, ac mae hynny wrth gwrs yn effeithio ar bwrs y wlad […] beth yw'r cymhelliant i fod mewn cyflogaeth?"* ***Person â phrofiad o ddigartrefedd***

95. Yn debyg i flwyddyn un a dau, eleni, teimlai'r mwyafrif y dylai cyllid gael ei yrru gan angen, yn hytrach na chategoreiddio pobl.

*"Hoffwn i'r arian gael ei ddefnyddio'n gywir a'i ddyrannu i feysydd sydd wir ei angen". **Person ifanc***

# 9. Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu: Heriau allweddol fesul sector

96. Gofynnwyd i gyfranogwyr roi sylwadau ar yr heriau allweddol yr oeddent yn eu hwynebu yn eu sector a sut y gallai Llywodraeth Cymru eu cynorthwyo.

### Ymarferwyr iechyd

97. Y pwysau allweddol a godwyd oedd recriwtio a chadw staff. Roedd y mater hwn yn cael ei gymhlethu gan y defnydd rheolaidd o staff asiantaeth. Dywedwyd bod staff yn gadael rolau llawn amser ar gyfer rhai rhan amser fel y gallant weithio'n rhan amser mewn rôl barhaol a rhan amser gydag asiantaeth fel ffordd o *"ychwanegu"* at eu hincwm. Disgrifiodd un cyfranogwr sut y gallai nyrsys ennill *"mwy mewn wythnos ar yr asiantaeth nag yr oeddent yn ei ennill yn fisol gyda'r GIG"*. Ac nid oedd unrhyw ddiffyg rolau i'w llenwi gyda'r asiantaeth.

> *"Rwy'n fyfyriwr nyrsio yn y drydedd flwyddyn [...] dwi newydd orffen lleoliad oncoleg a haematoleg yn Abertawe ac roedd bron hanner y staff cymwys yn bwriadu gadael i fynd i asiantaeth".* Ymarferwr iechyd

98. Roedd rhai cyfranogwr yn teimlo y dylid lleoli nyrs ym mhob cartref gofal i sicrhau bod cleifion yn gallu cael mynediad at ofal sy'n gweddu lefel eu hanghenion.

> *"Mae'r effaith ar wasanaethau nyrsio ardal gan gartrefi gofal yn sylweddol [...] Mae angen gwneud rhywbeth i bontio'r bwlch hwnnw gyda chartrefi gofal fel bod pobl mewn cartrefi gofal yn cael gofal diogel ac effeithiol a chyda'r nifer cywir o staff".* Ymarferwr iechyd

### Y Trydydd Sector

99. Cysondeb cyllid oedd y pwysau mwyaf a nodwyd gan nifer o gyfranogwyr. Teimlwyd bod y cylch ariannu tymor byr yn cyfyngu ar yr hyn y gallai'r sector ei gyflawni gan fod llawer o'i amser yn cael ei dreulio ar geisiadau grant a gorfod recriwtio staff i rolau cyfnod penodol. Roedd un cyfranogwr hyd yn oed yn teimlo nad oedd y cyllid ar ôl gadael yr UE wedi cael ei ddosbarthu'n gywir ac roedd yn teimlo y gallai hyn fod yn broblem yn y dyfodol os na chaiff sylw.

> *"Mae'r effeithiau ar grwpiau os caiff cyllid ei dynnu yn aml yn eithaf difrifol a gall rhoi terfyn ar gyllid ar gyfer rhai prosiectau ac elusennau gael effeithiau sylfaenol iawn". Person hŷn*

100. Roedd un sefydliad yn teimlo nad oedd cyllid Llywodraeth Cymru yn gost-effeithiol lle maent yn cynnig cyfradd Cyflog Byw i'w staff. Mae hyn wedi golygu bod ganddynt ddiffyg y bu'n rhaid iddynt ei lenwi oherwydd fel arall mae perygl y byddant yn niweidio diwylliant cadarnhaol a gwerthfawr o fewn eu gweithlu.

> *"Gallai hyn wneud ein gwasanaethau'n anghynaladwy a gall effeithio ar y bobl rydyn ni'n eu cefnogi."* ***Staff mewn sefydliad trydydd sector***

### Ffermio

101. Roedd un cyfranogwr â chefndir amaethyddol ac un heb gefndir amaethyddol yn teimlo bod cymunedau gwledig yn "*cael anawsterau*" ac nad oeddent yn cael y gydnabyddiaeth y maent yn ei haeddu o gofio faint y mae amaethyddiaeth yn gallu cefnogi nifer o feysydd allweddol eraill.

> *"Mae cymaint o ffermydd a thyddynnod yn cael pethau'n anodd".* ***Cyfranogwr yn cyrchu gwasanaethau iechyd***
>
> *"Heb ein ffermwyr, byddai'r Gymraeg yn gwanhau. Felly mae angen i ni ofalu am y sector gwledig".* ***Aelod o'r sector amaethyddiaeth***

102. Nododd y gymuned ffermio nifer o broblemau o ran prinder sgiliau ar gyfer rolau allweddol yn y sector amaethyddiaeth.

### Addysg

103. Awgrymodd llawer o gyfranogwyr y dylid cynyddu cyfleoedd prentisiaeth, yn enwedig i gefnogi Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol lle'r oedd cyfranogwyr yn teimlo bod cynlluniau yn cael eu rhwystro gan ddiffyg gweithlu â sgiliau.

> *"Mae gennym system addysg ac i ryw raddau economi a gafodd ei chynllunio cyn y pandemig ac rydyn ni'n ceisio ei defnyddio ar gyfer datrysiad ar ôl y pandemig ac nid yw'r dau beth yn cyfateb [...] Rydyn ni'n gweld gostyngiad yn nifer y bobl sy'n mynd i'r brifysgol a cheisiadau prifysgol.* Mae mwy o bobl yn chwilio am brentisiaethau, ond mae rhai o'r penderfyniadau polisi rydyn ni wedi'u gwneud ar gyfer prentisiaethau yn wallgof". Aelod o'r sector addysg

104. Esboniodd un cyfranogwr fod un penderfyniad polisi wedi arwain at ddileu prentisiaethau Adeiladu Lefel 2 a'u bod bellach yn dechrau ar Lefel 3 gan atal darpar fyfyrwyr.

> *"Mae gennym gannoedd o bobl ifanc nawr a fyddai fel arfer wedi mynd i mewn i'r diwydiant adeiladu ac nid ydyn nhw'n gallu cael mynediad at y prentisiaethau oherwydd dydyn nhw ddim ar Lefel 3 ac mae hynny'n benderfyniad polisi, sy'n ymddangos yn hurt pan nad oes gennym ddigon o bobl yn y diwydiant hwnnw". **Aelod o'r sector addysg***

**Perchnogion busnes**

105. Ystyriwyd bod deddfwriaeth ar fin dod i rym yn her o ran cynnal model busnes cynaliadwy ar gyfer y sector manwerthu. Roedd un cyfranogwr am weld gwell polisiau a rheoleiddio i gefnogi busnesau sy'n arwain y chwyldro carbon isel.

> *"Mae gennym gynlluniau dychwelyd ernes. Mae gennym ddeunydd pacio plastig untro. Mae gennym reoliadau ailgylchu busnes. Dim ond tri yw'r rheini sy'n dod i rym yn ystod y 12 mis nesaf ar gyfer manwerthwyr [...] mae ystod enfawr o reoliadau ar fin dod i rym sy'n berthnasol i fusnesau, sy'n gwneud pethau'n anodd iawn ac yn creu beichiau cost enfawr, a fydd i bob pwrpas yn cael eu trosglwyddo i'r defnyddiwr". **Perchennog busnes***

106. Esboniodd un cyfranogwr fod manwerthwyr yn talu i mewn i'r ardoll brentisiaethau ond "*fel manwerthwyr, nid ydym yn gweld yr enillion yn y pen draw o hynny mewn gwirionedd*".

> *"Mae angen i fusnesau weithredu ochr yn ochr ag Addysg Uwch ac Addysg Bellach, mae angen iddynt ymwneud llawer mwy â'r camau datblygu cynnar o ran ble mae'r gyllideb honno'n mynd a'r blaenoriaethau oherwydd ar hyn o bryd nid yw ein haelodau'n gwneud unrhyw elw ar y buddsoddiad, ac i bob pwrpas, naill ai wedyn mae yna bwlch sgiliau rhwng Cymru a Lloegr, neu maen nhw'n gorfod dyblu cyllid ar gyfer prentisiaethau o fewn y gweithlu".* Perchennog busnes

107. Roedd un cyfranogwr eisiau gweld prosesau caffael gwell ac roedd cyfranogwr arall eisiau i gyfathrebu â busnesau gwella ymhellach i gynnig cymorth defnyddiol.

> *"Mae methiant i gydnabod gwerth busnesau bach a chanolig ac mae perygl bod y blaenoriaethau y mae Llywodraeth Cymru yn eu rhoi o ran dyrannu cyllid mewn gwirionedd yn methu'r pwynt ynglŷn â gwella'r ffordd y maent yn gweithredu [...] Yn enwedig o ran y ffordd y maent yn glynu'n gaeth at gyllidebau a phrosesau caffael, sydd i raddau helaeth yn dieithrio'r rhan fwyaf o fusnesau bach a chanolig". **Aelod o'r sector cyllid***
>
> *"Nid oes angen pot mawr o arian ar ei gyfer o reidrwydd. Mae angen i ni weithio ar y cyd i nodi lle mae arfer da yn digwydd i gefnogi adferiad busnes". **Perchennog busnes***

**Cleifion**

108. Roedd cleifion â chyflyrau hirdymor yn teimlo bod bwlch yn y cyllid ar gyfer pobl 25-50 oed o ran byw â chymorth. Byddai'r ddau gyfranogwr yn hoffi cael tai annibynnol mwy diogel, a'u hopsiynau ar hyn o bryd yw naill ai byw â'u teuluoedd neu mewn cartref gofal. Does dim byd ar gyfer eu grŵp oedran
109. Mynegodd un cyfranogwr rwystredigaeth gyda'r systemau sydd ar waith ar gyfer apwyntiadau iechyd a gollir. Roeddent yn teimlo bod arian yn cael ei wastraffu gan bobl sy'n methu apwyntiadau a phresgripsiynau. Roedd y cyfranogwr arall yn meddwl y dylai cleifion dalu am apwyntiad pe baent yn ei golli heb reswm dilys.

# Atodiad 1

Hoffai'r Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion ddiolch i'r sefydliadau canlynol am eu cymorth gyda'r ymchwiliad hwn:

| | |
|---|---|
| Cydffederasiwn Diwydiant Prydain (CBI) | Grŵp Cynghori Pobl Hŷn |
| Colegau Cymru | Coleg Brenhinol y Meddygon Teulu |
| Cynghrair Pobl Hŷn Cymru | Y Coleg Nyrsio Brenhinol |
| Epilepsy Action | Chwaraeon Cymru |
| Undeb Amaethwyr Cymru | Tir Dewi |
| Y Ffederasiwn Busnesau Bach | Voices from Care Cymru |
| Canolfan Bwyd Cymru | Versus Arthritis |
| Legacy Leisure | Y Wallich |
| Helpwr Arian | Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Cymru |
| Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol | Conffederasiwn GIG Cymru (Saesneg yn unig) |

# Atodiad 2

1. Cwestiwn 1 - Pe gallech chi ddewis hyd at dri maes yr ydych o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru flaenoriaethu cyllid ar eu cyfer yn y flwyddyn ariannol nesaf, pa feysydd fyddech chi'n eu dewis:

    - Amaethyddiaeth / Materion Gwledig
    - Plant a phobl ifanc (gan gynnwys gofal plant, chwarae, gwasanaethau ieuenctid)
    - Newid Hinsawdd
    - Diwylliant (gan gynnwys y celfyddydau, chwaraeon a threftadaeth)
    - Yr economi
    - Addysg
    - Iechyd a Gofal Cymdeithasol
    - Tai/digartrefedd
    - Cysylltiadau Rhyngwladol
    - Llywodraeth Leol
    - Trafnidiaeth
    - Y Gymraeg

2. Pam ydych chi o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru gynyddu gwariant yn y meysydd hyn?

3. Os yw Llywodraeth Cymru yn mynd i gynyddu gwariant mewn rhai meysydd, efallai y bydd angen iddi dorri gwariant mewn meysydd eraill. Pe bai'n rhaid i chi ddewis, pa rai o'r meysydd canlynol ydych chi'n meddwl y dylai Llywodraeth Cymru dorri gwariant ar eu cyfer yn y flwyddyn ariannol nesaf? Dewiswch hyd at dri maes: (cyfeiriwch at y rhestr uchod)

4. Pam ydych chi o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru leihau gwariant yn y meysydd hyn?

5. Pe baech yn meddwl yn benodol sut y gallai Llywodraeth Cymru gael yr effaith fwyaf ar wella iechyd a llesiant y boblogaeth, a chreu'r amodau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd i bawb allu ffynnu, sut fyddech chi'n blaenoriaethu'r gyllideb?

6. A ydych yn ymwybodol bod cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2023-24 yn cael ei hariannu gan y canlynol:

    - tua £3 biliwn o Gyfraddau Treth Incwm Cymru
    - £1.1 biliwn o ardrethi annomestig
    - £283 miliwn o'r Dreth Trafodiadau Tir
    - £39 miliwn o dreth Tirlenwi
    - a £150 miliwn o fenthyca wedi'i gynllunio

sy'n cyfateb i ychydig llai nag un rhan o bump o gyfanswm Cyllid Llywodraeth Cymru?

- *Ydw*
- *Ydw, rwy'n ymwybodol o ddatganoli treth ond nid y symiau a/neu'r trethi penodol sydd wedi'u datganoli*
- *Na fyddai*

7. Wrth feddwl am wariant Llywodraeth Cymru yn y flwyddyn ariannol nesaf, a ydych chi'n credu y dylai ddefnyddio ei phwerau trethu a/neu fenthyca i gynyddu neu leihau'r cyllid cyffredinol sydd ar gael i'w wario, neu gynnal ei lefel bresennol o wariant?
   - Cynyddu gwariant
   - Lleihau gwariant
   - Cynnal y lefel bresennol o wariant

8. I'w ofyn i'r rheini a atebodd 'cynyddu gwariant' uchod:

   Fe ddwedoch chi y dylai Llywodraeth Cymru gynyddu ei gwariant yn y flwyddyn ariannol nesaf. Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau sut rydych chi'n meddwl y dylai ariannu'r cynnydd hwn mewn gwariant?

- *Dylai Llywodraeth Cymru fenthyca rhagor*
- *Dylai Llywodraeth Cymru gynyddu trethi*
- *Dylai Llywodraeth Cymru fenthyca rhagor yn ogystal â chynyddu trethi*

9. I'w ofyn i'r rheini a atebodd 'lleihau gwariant' uchod:

Fe ddwedoch chi y dylai Llywodraeth Cymru leihau ei gwariant yn y flwyddyn ariannol nesaf. Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau sut rydych chi'n meddwl y dylai fynd ati i wneud hynny?

- *Dylai Llywodraeth Cymru fenthyca llai*
- *Dylai Llywodraeth Cymru leihau trethi*
- *Dylai Llywodraeth Cymru dorri'n ôl ar wariant a benthyca*

10. Yn eich barn chi, pa mor bwysig yw hi fod Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio gwariant ar y cynlluniau canlynol:

    - Gwella cartrefi ledled Cymru – gan gynnwys datgarboneiddio cartrefi, adeiladu tai fforddiadwy carbon isel newydd a rhaglen genedlaethol i wella effeithlonrwydd ynni cartrefi presennol.

- Cysylltu a symud pobl – gan gynnwys gwella cysylltedd digidol, teithio llesol (ffyrdd o deithio heb fodur er enghraifft ar feic) a thrafnidiaeth gyhoeddus.
- Buddsoddi mewn creu swyddi gwyrddach newydd.
- Buddsoddi mewn natur – gan gynnwys blaenoriaethu cyllid a chefnogaeth ar gyfer adfer cynefinoedd a bywyd gwyllt ar raddfa fawr; cefnogi amddiffynfeydd naturiol rhag llifogydd; rhoi'r goedwig genedlaethol newydd ar waith; a gwella cadwyni bwyd a dosbarthu lleol.
- Cefnogi busnesau a fydd yn helpu Cymru i arwain y chwyldro carbon isel
- Buddsoddi yng nghapasiti cynhyrchu ynni Cymru i leihau dibyniaeth ar fewnforion.
- Buddsoddi yng nghapasiti cynhyrchu bwyd o Gymru i leihau dibyniaeth ar fewnforion

Graddfa pwysigrwydd: Pwysig iawn / Eithaf pwysig / Ddim yn bwysig iawn / Ddim yn bwysig o gwbl / Ddim yn siŵr

11. Sut gall Llywodraeth Cymru fod yn arloesol yn y ffordd y mae'n ariannu'ch sector er mwyn mynd i'r afael â heriau'r dyfodol?

    - *yr argyfwng costau byw,*
    - *cefnogi adferiad busnes,*
    - *trawsnewid i economi carbon is;*
    - *ymateb i newidiadau ar ôl Brexit*

12. Wrth feddwl am y flwyddyn ariannol nesaf, a ddylai Llywodraeth Cymru flaenoriaethu cyllid ar gyfer grwpiau penodol o bobl mewn cymdeithas? Os felly, pa grwpiau y dylid eu blaenoriaethu?

13. Pam mae'r grwpiau hyn yn flaenoriaeth?

14. Wrth ystyried effaith cyllid ar gyfer y grwpiau hyn…

    - Beth fyddai effaith cyllid neu gyllid ychwanegol ar gyfer y grwpiau hyn?
    - Beth fyddai effaith dim cyllid pellach neu leihad mewn cyllid ar gyfer y grwpiau hyn?

15. Cwestiynau seiliedig ar bolisi (Dewisol):

    - Beth yw'r prif bwysau hirdymor ar eich sector, a pha gymorth sydd ei angen i ymdrin â'r pwysau hynny?
    - Pa mor effeithiol yw'r gefnogaeth a ddarperir gan Lywodraeth Cymru wrth fynd i'r afael ag anghenion y sector?
    - Sut gall Llywodraeth Cymru fod yn arloesol yn y ffordd y mae'n ariannu'ch sector er mwyn mynd i'r afael â heriau'r dyfodol?